# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 18 IONAWR, 2022 am 2.00 o'r gloch yp | TUESDAY, 18 JANUARY, 2022 at 2.00 p.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDION'N FYW (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU) | VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND) |
| Swyddog Pwyllgor — Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Sedd Wag/Vacant Seat (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gasglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.***

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gasglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ac unrhyw eitem o fusnes.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 9 Tachwedd, 2021.

**4 TREFNIADAU DIOGELU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 9 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD AC YNYS MÔN** (Tudalennau 41 - 88)

Cyflwyno adroddiad gan yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gwynedd a Ynys Môn.

**6 BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 89 - 96)

Cyflwyno y Blaen Raglen Waith.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar y 9fed o Dachwedd 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Glyn Haynes (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, R Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts a Margaret Murley Roberts |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, (eitem 4),<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd (eitem 5),<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Prif Swyddog Cynllunio (DFJ) (item 5),<br>Rheolwr Polisi a'r Iaith Gymraeg (FO) (eitem 4),<br>Uwch Reolwr – Cynradd (eitem 4). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd Llinos M Huws;<br>Cynghorydd Richard A Dew – Deilydd Portffolio – Cynllunio (eitem 5);<br>Cynghorydd R Meirion Jones – Deilydd Portffolio – Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid (eitem 4);<br>Cynghorydd Ieuan Williams – Deilydd Portffolio – Iaith Gymraeg (eitem 4).<br>Rheolwr Polisi Cynllunio (RJ) (eitem 5). |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Dim.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 20fed o Fedi 2021 fel cofnod cywir.

**4 IAITH GYMRAEG**

- **Strategaeth Iaith**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Deilydd Portffolio - Iaith Gymraeg fod yr adroddiad yn ymgorffori'r Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 - 2021 (Adroddiad Asesiad) ynghyd â Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026. Dywedodd ei bod yn bwysig nodi fod y Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 yn strategaeth hyrwyddo ddrafft a'i bod yn her paratoi dogfen o'r fath oherwydd diffyg data cyfredol ynghylch sefyllfa'r Iaith Gymraeg ar Ynys Môn. Nododd ymhellach fod Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 (drafft) yn adeiladu ar sylfaen y strategaeth gyntaf ac yn mabwysiadu targed cyson a meysydd blaenoriaeth h.y. Plant, pobl ifanc a theuluoedd; y gweithle, gwasanaethau Iaith Gymraeg a'r isadeiledd; y Gymuned. Dywedodd y Deilydd Portffolio - Iaith Gymraeg fod yr ystadegau yn dangos fod y nifer o siaradwyr Cymraeg ar yr Ynys wedi lleihau ond bod y ffigyrau hefyd yn dangos fod oddeutu 38,000 o drigolion yr ynys yn siaradwyr Cymraeg, ffigwr sydd wedi parhau yn sefydlog ers yr 1950au.

Adroddodd y Rheolwr Polisi a'r Iaith Gymraeg bod gofyn i'r Cyngor baratoi strategaeth i hyrwyddo'r Gymraeg, yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Paratowyd y ddogfen fel strategaeth dros dro i bontio'r cyfnod o ddiwedd 2021 hyd at gyhoeddi data'r Cyfrifiad yn llawn yn ystod 2023 a phwrpas y Strategaeth yw amlinellu sut mae'r Cyngor yn bwriadu hyrwyddo'r iaith a hwyluso ei defnydd ehangach ar Ynys Môn. Dywedodd ymhellach, pan gyhoeddwyd y strategaeth gyntaf yn 2016, y targed oedd gwrthdroi'r lleihad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar yr Ynys yn ôl Cyfrifiad 2011. Gwnaed gwaith gyda sefydliadau partner allweddol trwy Fforwm Cymraeg Ynys Môn a bydd y Fforwm yn cymryd y cyfrifoldeb o fonitro'r cynnydd o ran y cynlluniau gweithredu bob blwyddyn.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaeth y prif bwyntiau a ganlyn: -

- Codwyd cwestiynau ynghylch a oes unrhyw risgiau neu bryderon penodol ynghylch cyflwr yr iaith Gymraeg yn Ynys Môn. Ymatebodd y Rheolwr Polisi ac Iaith Gymraeg fod y pandemig wedi cael effaith ar y Gymraeg oherwydd bod mewnlifiad o bobl yn dod i fyw ar yr Ynys tra nad oes data ar gael ar hyn o bryd i gadarnhau'r effaith; mae angen monitro'r sefyllfa er mwyn canfod yr effeithiau ar gymunedau lleol ac ymateb i'r heriau sy'n deillio o'r mewnlifiad o bobl sy'n dod i fyw ar yr Ynys. Dywedodd y Deilydd Portffolio ar gyfer y Gymraeg ei bod yn bwysig hyrwyddo'r Gymraeg gan fod canran o bobl wedi'u geni ar yr Ynys sy'n tueddu i siarad Saesneg yn y cartref yn hytrach na siarad Cymraeg;
- Gwnaed sylwadau ei bod yn her craffu ar y Strategaeth a rhoi sylwadau p'un a fydd yn llwyddiannus ai peidio oherwydd y diffyg data cyfredol sydd ar gael. Ymatebodd y Deilydd Portffolio- Iaith Gymraeg ei fod o'r farn ei bod yn bosibl craffu a dod i ganfyddiad cyffredinol ynghylch y rhesymau pam mae canran y siaradwyr Cymraeg wedi lleihau ar yr Ynys. Dywedodd fod Cynllun Gweithredu wedi'i gynhyrchu gyda gofyniad i wella sefyllfa'r Gymraeg yn ysgolion yr Awdurdod, y gweithle, (mae'r Cyngor yn annog ac yn cefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg) a'r gymuned;
- Codwyd cwestiynau ynghylch a allai'r Strategaeth ymgorffori'r defnydd / annog defnyddio'r Gymraeg yn y sector preifat. Ymatebodd y Rheolwr Polisi ac Iaith Gymraeg fod y Cynllun Gweithredu yn ddogfen weithio a bod lle i gynnwys cydweithredu â sefydliadau partner fel y trafodwyd yn Fforwm

Cymraeg Ynys Môn. Dywedodd ymhellach y gall y Cyngor Sir ddylanwadu, cefnogi ac arwain y gwaith a wneir i annog defnyddio'r Gymraeg;

- Mynegwyd pryderon bod canran y siaradwyr Cymraeg ar yr Ynys wedi gostwng ac yn parhau i fod ar lefel ers y 1950au a'r effaith y gallai hynny ei gael ar y gymuned a dyfodol y Gymraeg. Ymatebodd y Deilydd Portffolio - Iaith Gymraeg fod y Gymraeg ym 1970 yn cael ei siarad ar iard yr ysgol ond mae hyn wedi newid dros y blynyddoedd a dyma pam mae Strategaeth Hybu Iaith Gymraeg o'r fath yn bwysig i hyrwyddo'r iaith a hwyluso ei defnydd ehangach ar Ynys Môn. Nododd ei bod yn galonogol yn enwedig yn Ne Cymru bod canran y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu ac yn enwedig mewn ysgolion gyda rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg yn anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Roedd aelodau'r Pwyllgor hefyd o'r farn y dylai gweithgareddau awyr agored a gynigir i blant ysgol hefyd fod yn hybu ac yn defnyddio'r Gymraeg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod hyrwyddo'r Gymraeg yn flaenoriaeth ym mhob ysgol ar yr Ynys ond mynegodd ei bod yn her annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith:-**

- **y dylid cyhoeddi Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021: Adroddiad asesu (drafft) ar y wefan gorfforaethol;**
- **y dylid cymeradwyo Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 (drafft) ac awdurdodi'r swyddogion perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r deilydd portffolio, i gwblhau unrhyw waith adolygu pellach i'r strategaeth ddrafft.**

**GWEITHRED : Fel y nodwyd uchod.**

- **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Deilydd Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid bod adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA). Cynllun deng mlynedd yw'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 a'r pwrpas yw gwella cyfleoedd i awdurdodau lleol gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg er mwyn cefnogi'r disgwyliad presennol ac yn y dyfodol ar gyfer twf mewn addysg Gymraeg. Bydd gwella cynllunio addysg Gymraeg hefyd yn cefnogi'r uchelgais genedlaethol hirdymor ar gyfer y Gymraeg fel y nodir yn Cymraeg 2050: Strategaeth Miliwn o siaradwyr Cymraeg. Dywedodd ymhellach y bydd yn her cyrraedd uchelgais genedlaethol miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ond trwy dderbyn y Strategaeth hon, gobeithio y bydd yn gwella safonau addysg Gymraeg.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod Ynys Môn yn cychwyn pennod newydd o ran sut y mae'n cynllunio'r Gymraeg mewn addysg a bydd gweithredu'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg dros y 10

mlynedd nesaf, yn helpu i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rhaid i'r Cynllun Strategol gynnwys: -

- Cynigion awdurdod lleol ar sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg i wella cynllunio darpariaeth addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ei ardaloedd a gwella safonau addysg Gymraeg ac addysgu Cymraeg yn ei ardaloedd;
- Targedau'r awdurdod lleol ar gyfer gwella cynllunio darpariaeth addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu'r Gymraeg yn yr ardal;
- Adrodd ar y cynnydd blynyddol a wnaed i gyflawni'r targedau a nodir yn y Cynllun blaenorol neu'r Cynllun diwygiedig blaenorol.

Dywedodd ymhellach fod y Cyngor wedi cynhyrchu CSGA 10 mlynedd mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid ar draws y sector. Bydd cyfnod ymgynghori 8 wythnos yn cael ei gynnal gyda'r holl ymgynghorwyr sy'n cynnwys Estyn a'r ysgolion lleol. Wedi hynny, bydd y sylwadau a dderbynnir ar ôl y cyfnod ymgynghori yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun Strategol os bydd angen ac fe'u cyflwynir i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Ionawr 2022.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaed y prif bwyntiau canlynol: -

- Codwyd cwestiynau ynghylch a ellir addasu'r CSGA gan ei fod yn Gynllun 10 mlynedd. Ymatebodd yr Uwch Reolwr - Cynradd y bydd strwythur a phroses gydweithredu yn cael ei sefydlu. Bydd y Grŵp Cylch Gorchwyl yn cwrdd pob tymor ysgol ynghyd â'r Grŵp Canlyniadau (sydd â chynrychiolaeth ar draws gwahanol sectorau) i ddadansoddi'r data a bydd yn briodol ymateb i unrhyw ganlyniad yn flynyddol a bydd Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y mater hwn wedi'i godi gyda Llywodraeth Cymru gan fod y Cynllun yn gynllun 10 mlynedd ac y bydd angen ei addasu a'i adolygu;
- Cyfeiriwyd at yr heriau o fewn y sector Uwchradd i ddenu athrawon sy'n gallu dysgu pynciau trwy'r Gymraeg a mynegwyd pryderon mai canran y pynciau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg yw 34.8%. Codwyd cwestiynau ynghylch a yw'r Awdurdod mewn cysylltiad â'r Prifysgolion i annog a galluogi mwy o fyfyrwyr i ddod yn athrawon cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod cydweithio yn digwydd â Phrifysgol Bangor a CABAN (y bartneriaeth ledled Gogledd Cymru) sy'n cefnogi darpar athrawon ac athrawon newydd. Dywedodd yr Uwch Reolwr fod Arweinwyr o'r Brifysgol mewn cysylltiad â'r Grŵp Strategol Uwchradd a bydd gan Benaethiaid fynediad i'r garfan o athrawon sy'n hyfforddi ar hyn o bryd. Gwneir gwaith gyda GwE a Chanolfan Bedwyr i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Codwyd cwestiynau ynghylch beth yw'r prif heriau yn y dyfodol o ran safle'r Gymraeg o fewn addysg ar lefel leol. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ei bod yn amlwg bod y pandemig wedi effeithio ar ddefnydd disgyblion o'r iaith Gymraeg ac ieithoedd eraill. Dywedodd ymhellach ei bod yn her annog disgyblion o oedran ifanc a thrwy eu haddysg i siarad Cymraeg;

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid cymeradwyo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032: Diffiniad rôl y cydlynwyr Iaith dalgylch (drafft) ac awdurdodi'r swyddogion perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r deilydd portffolio, i gwblhau unrhyw waith adolygu pellach i'r strategaeth ddrafft.**

**GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.**

## 5 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – ADRODDIAD ADOLYGU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Deilydd Portffolio - Cynllunio bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd wedi'i fabwysiadu ar 31ain o Orffennaf, 2017 yn unol â'r dyddiad gofynnol statudol ar gyfer cychwyn y broses adolygu oedd 31 Gorffennaf, 2021 a bydd y cyfnod ymgynghori yn cael ei gynnal ar yr adroddiad adolygu.

Adroddodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol yn darparu strwythur polisi lleol ar gyfer defnydd tir. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol ar waith tan 2025 ond mae angen ei adolygu bob 4 blynedd. Mae'r broses ymgynghori ar y gweill ar hyn o bryd a bydd adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2022.

Adroddodd y Rheolwr Polisi Cynllunio bod yr adroddiad adolygu yn mesur perfformiad y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ers ei fabwysiadu yn 2017. Mae'r adroddiad adolygu'n cynnwys 6 rhan fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad: -

Rhan 1 - Cyflwyniad
Rhan 2 - Gwybodaeth a materion perthnasol
Rhan 3 - Adolygiad CDLl a newidiadau posibl
Rhan 4 - Gofyniad adolygiad ar sail tystiolaeth
Rhan 5 - Cydweithio a pharatoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
Rhan 6 - Casgliadau a'r camau nesaf

Adroddodd y Rheolwr Polisi Cynllunio ymhellach y bydd y broses ymgynghori ar yr Adroddiad Adolygu yn dod i ben ar 20fed o Ragfyr, 2021.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaed y prif bwyntiau canlynol: -

- Codwyd cwestiynau ynghylch a oes angen mynd i'r afael ag unrhyw faterion ychwanegol fel rhan o'r broses adolygu naill ai'n genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol. Ymatebodd y Rheolwr Polisi Cynllunio bod pryderon ar lefel ranbarthol ynghylch y gwaith ar y Cynllun Datblygu Strategol y bydd ei angen yn ychwanegol at newidiadau posibl mewn deddfwriaeth genedlaethol na ellir eu rhagweld; bydd angen rhoi adnoddau ar waith i wneud gwaith ar y Cynllun Datblygu Strategol hy cyllid ychwanegol a staffio. Dywedodd ymhellach fod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn trafod materion cartrefi gwyliau, ail gartrefi ar hyn o bryd ac y gallai gwaith pellach ddeillio o drafodaethau o'r fath;
- Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gosod amserlen o dair blynedd a hanner i gynnal adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol a mynegwyd pryderon bod angen newid y Cynllun Datblygu ar hyn o bryd. Codwyd cwestiynau a ellid

adolygu'r polisïau yn y Cynllun fesul cam. Ymatebodd y Rheolwr Polisi Cynllunio, unwaith y bydd y Cytundeb Cyflenwi yn ei le ac wedi'i gytuno gan Lywodraeth Cymru, yr amserlen a bennwyd gan y Llywodraeth yw tair blynedd a hanner i gyflawni'r gwaith. Nododd na fydd modd adolygu polisïau yn y Cynllun fesul cam am fod y polisïau yn integreiddio â'i gilydd;

- Codwyd cwestiynau ynghylch yr effaith y bydd y Pwyllgor Corfforaethol ar y Cyd (CJC's) yn ei gael ar yr awdurdodau cynllunio lleol. Ymatebodd y Deilydd Portffolio - Cynllunio y bydd pwysau ychwanegol yn cael eu gosod ar awdurdodau lleol wrth gyflwyno'r Pwyllgor Corfforaethol ar y Cyd gan na fydd y cyllid a'r staff presennol yn ddigonol i gyflawni'r gwaith. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd yn gofyn am ddiweddariad lefel uchel ar y Pwyllgor Corfforaethol ar y Cyd i'r Aelodau Etholedig maes o law;
- Codwyd cwestiynau a yw'r polisïau cynllunio presennol yn ddigon gwydn i alluogi pobl i aros yn eu cymunedau lleol. Ymatebodd y Rheolwr Polisi Cynllunio bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol yn sicrhau ac yn hyrwyddo bod cartrefi yn cael eu hadeiladu ar gyfer pobl leol ac anghenion lleol. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r materion pandemig sydd wedi dod i'r amlwg o ran pryderon ynghylch cartrefi yn cael eu prynu fel cartrefi gwyliau ac ail gartrefi mewn cymunedau lleol. Nododd y bydd angen i Lywodraeth Cymru newid y ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â'r materion hyn.
- Codwyd cwestiynau ynghylch a yw anghenion lleol yr Ynys yn cael eu hystyried gan fod gan bob sir wahanol flaenoriaethau ac anghenion lleol. Ymatebodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ei bod yn hanfodol bod gan yr Awdurdod statws rhanbarthol cryf a bod llais y cymunedau lleol yn cael sylw.

**PENDERFYNWYD nodi:-**

- **Y newidiadau yn y cyd-destun cenedlaethol a lleol;**
- **Canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol yn Rhan 2;**
- **Y materion fydd angen eu hadolygu wrth baratoi Cynllun Diwygiedig yn Rhan 3;**
- **Y casgliadau yn rhan 6 o'r Adroddiad Adolygu.**

**GWEITHRED : Fel y nodwyd uchod.**

**6 BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2021/22**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.**

**GWEITHRED : Fel y nodwyd uchod.**

**7 EITEMAU ER GWYBODAETH**

Roedd yr eitemau canlynol er gwybodaeth yn unig:-

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Trefniadau Llywodraethiant

- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - Adroddiad Cynnydd Chwarter 2, 2021/2022

Daeth y cyfarfod hwn i ben am 4.00 pm

**CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 18fed Ionawr 2022 |
| **Pwnc:** | Trefniadau Diogelu Corfforaethol |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Bwriad yr adroddiad felly yw ceisio rhoi trosolwg ar waith y Bwrdd Diogelu Corfforaethol am y cyfnod adrodd a chrynhoi'r blaenoriaethau i'r dyfodol |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Gwilym Owen Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Mae hwn yn fater ar draws pob portffolio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Mae hwn yn fater ar gyfer pob Pennaeth Gwasanaeth. Cyflwynir yr adroddiad yn enw y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â'r cyfrifoldeb â'r atebolrwydd statudol sydd wedi ei freinio yn y rôl honno dros faterion diogelu. |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Anwen Huws, Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu ac Ansawdd)<br>01248 751811<br>AnwenHughes@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Perthnasol i'r holl Aelodau Etholedig. |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

**1.1** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar yr adroddiad a nodi'r trefniadau sydd ar waith, yn ogystal â'r meysydd y mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol yn gyrru arnynt er mwyn sicrhau ein bod yn cwrdd â'n dyletswyddau statudol yn y maes hwn.

**1.2** Cynnig sylwadau er mwyn llywio a dylanwadu ar y blaenoriaethau yn y Cynllun Gweithredu.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Un o flaenoriaethau corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn yw sicrhau bod pobl fregus yn cael eu diogelu ac y gallant fyw bywydau mor annibynnol â phosib. Mae'r Cyngor yn credu fod gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed. Mae "Diogelu" yn gyfrifoldeb i bawb ym mhob Gwasanaeth o fewn y Cyngor. Er mai Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r Gwasanaeth Arweiniol ar gyfer delio ag ymholiadau mewn perthynas â honiadau / pryderon y gallai plant ac oedolion fod yn dioddef niwed sylweddol, mae cyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion, beth bynnag yw rôl yr unigolyn.

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|

i. A ydi'r trefniadau llywodraethu yn effeithiol?

ii. Pa gynnydd sydd yn cael ei wneud yn erbyn y cynllun gwaith?

iii. A ydi'r adnoddau mewn lle ar gyfer cyflawni'r cynllun gwaith?

iv. A oes tystiolaeth fod cyfleodd amlwg i staff ac aelodau mewn perthynas â'r disgwyliadau a roddir arnynt i ymateb yn briodol i bryderon y cânt wybod amdanynt?

v. A oes tystiolaeth fod gweithdrefnau corfforaethol cadarn yn eu lle a'u bod yn cael eu gweithredu'n gyson?

vi. Sut mae'r Cyngor yn sicrhau fod ymarfer diogel mewn gwasanaethau a gomisiynir a bod yr holl ddarparwyr sy'n gweithredu ar ran y Cyngor yn ymarfer eu cyfrifoldebau diogelu mewn modd effeithiol?

| **5 – Cefndir / Cyd-destun** |
|---|

Mi ddylai pob sefydliad sy'n gweithio â phlant, pobl ifanc ac oedolion fod wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo eu lles. Mae cyfrifoldebau statudol ar yr Awdurdod mewn sawl maes. Mae'r rhain wedi eu diffinio yn y Cynllun Gweithredu sydd yn Atodiad 1. Yn fyr, maent yn cynnwys:

- Dyletswydd ar Gyngor Sir Ynys Môn i sicrhau ei fod yn ymgymryd â'i swyddogaethau mewn ffordd sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles plant ac oedolion all fod mewn peryg

- Dyletswyddau dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ar gyfer atal trais yn seiliedig ar ryw, camdriniaeth a thrais rhywiol

- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, sy'n gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i adnabod unigolion a theuluoedd sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio gan bob math o derfysgaeth

- Deddf Caethwasiaeth Fodern, sy'n gosod dyletswyddau fel ymatebwr cyntaf i achosion o gaethwasiaeth

Wrth gyfeirio at Ddiogelu Corfforaethol rydym yn cynnwys materion sydd yn ymwneud â'r canlynol:

- Arweinyddiaeth Gorfforaethol – rheolaeth a chraffu effeithiol ar drefniadau llywodraethu diogelu corfforaethol

- Cael Polisïau a Chanllawiau priodol mewn lle er mwyn sicrhau bod yr holl staff ac aelodau yn gwybod beth y disgwylir iddynt ei wneud o ran ymateb yn briodol i bryderon y rhoddir gwybod amdanynt; gweithdrefnau effeithiol ar gyfer cofnodi ac ymateb i ddigwyddiadau ac unrhyw honiadau neu amheuon ynghylch niwed neu gamdriniaeth

- Recriwtio Staff yn Ddiogel – sicrhau bod y Cyngor yn cynnal gweithle diogel

- Hyfforddi a Datblygu – sicrhau bod yr holl weithlu ac aelodau yn deall arferion diogel a'r hyn sydd yn ofynnol ganddynt

- Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynir- sicrhau arferion diogel mewn gwasanaethau a gomisiynir a bod pawb sy'n darparu gwasanaeth ar ran y Cyngor yn cyflawni eu cyfrifoldebau diogelu yn effeithiol.

- Systemau – sicrhau goruchwyliaeth a rheolaeth effeithiol o faterion diogelu ym mhob gwasanaeth a thrwy'r Cyngor cyfan

Ar lefel Gorfforaethol, mae'r cyfrifoldeb ar gyfer monitro effeithiolrwydd y trefniadau diogelu ar draws y Cyngor wedi cael ei freinio yn y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol. Rhaid i'r Bwrdd adrodd i'r Aelodau - gan roi trosolwg o berfformiad y Cyngor o ran cydymffurfio â'r Polisi Diogelu Corfforaethol. Mae angen i'r Pwyllgor Sgriwtini herio a chraffu ar waith a pherfformiad y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol. Bydd sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini yn llywio ac yn dylanwadu ar y blaenoriaethau yn rhaglen waith y Bwrdd Corfforaethol.

| 6 – Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| 6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 |
|---|
| Nid oes unrhyw effaith ar y grwpiau â nodweddion gwarchodedig. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Mae effaith bosibl ar y rheiny sydd yn dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol, sef rhai o’n trigolion mwyaf bregus. Mae’r adroddiad yn ystyried sut y mae’r gwasanaethau wedi’u trefnu i gwrdd ag anghenion y grŵp yma o bobl, yn cynnwys y ffocws hyd yma yn ystod y pandemig byd eang. |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg** |
| Nid oes effaith ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a/neu drin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. |

| 7 – Goblygiadau Ariannol |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| 8 – Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 - Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol – Medi 2021<br>Atodiad 2 – Adroddiad chwarterol diweddaraf y Cyngor i Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru – Medi 2021<br>Atodiad 3 - Adroddiad chwarterol diweddaraf y Cyngor i Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru – Medi 2021 |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| |

**Cynllun Gweithredu’r Adroddiad Diogelu Corfforaethol Mehefin 2020 – Medi 2021**

**1. Cyflwyniad**

1.1 Bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i’r maes diogelu, fel cyfrifoldeb corfforaethol a rhennir. Yn flynyddol, mae disgwyl i bob Pennaeth Gwasanaeth nodi ei amcanion Diogelu ar gyfer y flwyddyn, a byddent yn cael eu hadlewyrchu yn eu Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth. Ar ran y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd y Rheolwr Perfformiad Corfforaethol yn sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyson yn y Cynlluniau Cyflenwi Gwasanaethau. Bob chwarter, mae disgwyl bod pob Pennaeth Gwasanaeth yn adolygu eu cynnydd mewn perthynas â chyflawni eu Cynlluniau Cyflenwi Gwasanaeth, gan gynnwys eu hamcanion diogelu.

1.2 Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol bod yr Awdurdod Lleol wedi sefydlu Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol er mwyn rhoi sicrwydd i’r Aelodau a’r Cyfarwyddwr Statudol o effeithiolrwydd ein trefniadau diogelu fel Cyngor. Mae’n cwrdd yn chwarterol fel rhan o’r Cyfarfod Penaethiaid. Mae hyn yn sicrhau fod pob Pennaeth Gwasanaeth yn rhan o waith y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol. Mae gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol drosolwg o’r agenda diogelu ehangach

sydd yn bodoli, fel sydd wedi'i adlewyrchu yn y Cynllun Gweithredu (Atodiad 1). Bydd yr aelodau yn nodi fod hyn yn cynnwys dyletswyddau adnabod ac atal radicaleiddio, gofynion caethwasiaeth fodern, a gofynion trais yn erbyn menywod, cam-drin rhywiol a cham-drin domestig.

1.3 I gefnogi gweithredu'r Cynllun Gweithredu Diogelu sefydlwyd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol Gweithredol. Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys pencampwyr diogelu o bob gwasanaeth o'r Cyngor. Fe'i cadeirir gan Gwyneth Hughes, Gwasanaeth Dysgu ar hyn o bryd.

1.4 Mae trefniadau partneriaeth a llywodraethol eraill, megis

1.4.1 Byrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Plant ac Oedolion, ar gyfer ymdrin â materion arbenigol. Mae'r Byrddau hyn yn rhai statudol ac aml asiantaeth, gyda chyfrifoldebau penodol a chyfreithiol. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i gyfrannu at weithrediad y Byrddau hyn ar sail ranbarthol. Ceir copïau o'n hadroddiadau blynyddol i'r Byrddau hyn yn atodiad 2 a 3. Dyma linc i adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru:- https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/wpcontent/uploads//2019/07/V10-Final-NWSB-Report-cymraeg-docx.pdf.

1.4.2 Bwrdd Herio (CONTEST) Rhanbarthol (sydd yn fwrdd amlasiantaethol). Dylan Williams, Prif Weithredwr Cynorthwyol sydd yn cynrychioli Cyngor Sir Ynys Môn. Mae gan Bartneriaeth Diogelu Cymunedol Gwynedd a Môn gyfrifoldeb dros oruchwylio'r rhaglenni Atal oddi mewn i wasanaethau'r bartneriaeth.

1.4.3 Bwrdd Breguster a Chamfanteisio, sydd â goruchwyliaeth mewn perthynas â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae Anwen Huws, Rheolwr Gwasanaeth Diogelu ac Ansawdd yn mynychu'r cyfarfod hwn ar ran yr awdurdod.

1.5 Mae'r cynllun gweithredu cyfredol yn canolbwyntio ar sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer

- Arweinyddiaeth Gorfforaethol a llywodraethu
- Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth
- Gweithlu Diogel a Medrus
- Cefnogaeth ac Ymyriadau Effeithiol
- Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd

Adroddir ar yr amcanion, y camau gweithredu a'r cynnydd yn y Cynllun Gweithredu yn Atodiad 1.

**2. Cyflawniadau Allweddol**

2.1 Cynnal lefelau staffio drwy gydol y pandemig gyda rhai aelodau staff yn gweithio o'r cartref a chynnal presenoldeb staff yn y swyddfa ar yr un pryd. Mae gan staff fynediad at Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) llawn. Maent wedi parhau i gynnal ymweliadau cartref, os daeth asesiad risg i'r casgliad ei bod hi'n ddiogel gwneud hynny**.** Cwrdd â dyletswyddau statudol. Mae staff wedi dangos eu bod yn gallu addasu a gweithio'n greadigol gyda theuluoedd drwy gynnal ymweliadau ar droed drwy gadw pellter cymdeithasol a defnyddio platfformau megis Microsoft Teams. Cefnogwyd plant y gofelir amdanynt sydd mewn gofal maeth neu gartrefi preswyl i weld eu rhieni a'u teuluoedd. Gweithiodd y gwasanaeth â gwasanaethau eraill i sicrhau bod y trefniadau yn unol â'r cyfyngiadau - Iechyd a Diogelwch: Iechyd yr Amgylchedd. Cafwyd cydweithio cadarnhaol rhwng y Gwasanaethau Plant, yn cynnwys y Gwasanaeth Ieuenctid, a'r Gwasanaethau Dysgu ag ysgolion Ynys Môn i gefnogi plant bregus, a chefnogodd nifer o ysgolion plant i ddysgu gartref drwy ddarparu gliniaduron a thaflenni gwaith i rieni. Sefydlwyd trefniadau cydweithio cadarn rhwng y gwahanol asiantaethau i gefnogi plant bregus e.e. Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymdeithasol a Seicolegwyr Addysg. Cynigwyd lle yn yr hybiau gofal

i blant a oedd wedi eu hadnabod gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ar y cyd. Mae taliadau electronig i deuluoedd sydd yn gymwys i ginio ysgol am ddim yn ystod y cyfnodau clo wedi sicrhau nad oes yr un plentyn wedi bod mewn perygl o lwgu.

2.2 Panel Sianel ac Atal (CHANNEL & PREVENT) - cyfeiriwch at y papurau a ystyriwyd yn yr hunanasesiad (isod), yn cynnwys y cyfansoddiad a'r polisi llywodraethu a phreifatrwydd.

2.3 Nodyn Cyngor ar Ddiogelu a Chaffael a Rheoli Contractau – i helpu gwasanaethau i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan ein partneriaid yn ddiogel ac yn hyrwyddo diogelu.

2.4 Prosesau DBS newydd – mwy effeithiol ac amserol.

**Hyfforddiant**

2.4 Mae rhaglen hyfforddiant Diogelu Cyffredinol a Sylfaenol ar gael ac mae gofyn i Wasanaethau fapio eu hanghenion yn unol â'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu er mwyn bwydo rhaglen gorfforaethol. Mae hyfforddiant arbenigol diogelu yn cael ei drefnu yn ogystal yn unol ag anghenion y gweithlu.

2.5 Mae sawl pecyn e-ddysgu perthnasol ar gael ac mae angen i wasanaethau ystyried sut y gallent sicrhau bod cwblhau'r rhain yn ffurfio rhan o'r broses gynefino ar gyfer aelodau staff newydd e.e. modiwl e-ddysgu Caethwasiaeth Fodern, Modiwl e-ddysgu 'Prevent' a'r modiwl e-ddysgu Lefel 1 ar y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).

**Caethwasiaeth Fodern**

2.6 Ymrwymodd yr Awdurdod Lleol i'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol o fewn cadwyni cyflenwad sydd yn anelu at sicrhau bod pob sefydliad yn y sector cyhoeddus yn gweithredu i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol. Adolygwyd datganiad yr Awdurdod Lleol o'r modd y bu iddo weithredu ar ymrwymiadau'r Cod Ymarfer.

2.7 Nid yw'r cyfeiriadau sydd yn ein cyrraedd mewn perthynas â Chaethwasiaeth yn uchel. Mae llwybrau ymateb ar waith.

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Cham-drin Rhywiol**

2.8 Yn sgil y ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Cham-drin Rhywiol sefydlwyd y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol, sy'n cynnwys chwe grŵp hyfforddi. Mae holl broffesiynau'r gwasanaethau cyhoeddus yn perthyn i un o'r grwpiau hyn ac mae'n ofynnol bod pob aelod o weithlu'r Cyngor yn derbyn yr hyfforddiant perthnasol. Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gynghorau sicrhau fod ei holl staff wedi cwblhau hyfforddiant Lefel 1.

2.9 Mae gennym unigolion sydd wedi'u hyfforddi fel hyfforddwyr Gofyn a Gweithredu ac Unigolion sydd wedi'u hyfforddi fel pencampwyr Gofyn a Gweithredu, sef Lefel 3 ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

**Atal (PREVENT)**

2.10 Mae'r strategaeth Atal (PREVENT) yn cynnwys datblygu ystod eang o weithgareddau gan gynnwys cymorth ymarferol, cyngor a chefnogaeth ac ystod o ddigwyddiadau a rhaglenni cefnogi unigolion a sefydliadau i wrthbwyso ideolegau maleisus.

2.11 Yn ystod y cyfnod adrodd mae rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr wedi digwydd o fewn ysgolion Ynys Môn gyda 100% o'n hysgolion wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant (lefel 1, 2 neu 3) sydd yn cynnwys modiwlau ar radicaleiddio. Mae sleidiau hyfforddiant pwrpasol Lefel 1 a 2 ar gael i holl ysgolion ar hyd y flwyddyn gan fod hi'n debygol i ysgol gyflogi gweithiwr o'r newydd ar unrhyw bryd ac mae hyfforddiant Lefel 2 wyneb yn wyneb wedi cael ei gynnal yn dymhorol i 64 o athrawon, 19 gweithwyr ieuenctid ac 20 o weithwyr Blynyddoedd Cynnar, Dechrau'n Deg

2.12 Mae modiwl e-ddysgu PREVENT ar gael i staff y Cyngor.

2.13 Yn ogystal mae hi'n ofyn statudol inni fod yn cynnal paneli 'CHANNEL' sydd yn gyfarfodydd aml asiantaeth sydd yn rhoi ffocws i gefnogi pobl yn gynnar sydd wedi cael eu hadnabod fel rhai sydd mewn peryg o'u radicaleiddio. Mae'r panel yn gweithio mewn dull aml asiantaeth i adnabod unigolion, asesu natur y peryg a datblygu ffyrdd effeithiol a priodol i gefnogi'r unigolion. Mae trefniadau Paneli 'CHANNEL' mewn lle ac yn ymateb yn brydlon am yr angen i ymyrraeth pe bai'r angen yn codi. Nifer fechan iawn o achosion sydd yn cael eu cyfeirio mewn perthynas â hyn. Nid oes achos yn CHANNEL ar hyn o bryd.

**3. Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfiad**

3.1 Mae angen i'r Bwrdd Strategol Diogelu Corfforaethol sicrhau bod y gwasanaethau'n gweithredu'r polisïau diogelu yn gyson, ynghyd â darparu cymorth i'r gwasanaethau hynny ble mae angen. Ni all y gwasanaethau ddibynnu ar brosesau sicrwydd allanol yn unig. Mae gan y Bwrdd Strategol Diogelu Corfforaethol rôl allweddol yn sicrhau fod gwasanaethau yn gweithredu eu systemau hunan sicrwydd ac yn darparu her i'r naill a'r llall. Fel cam cyntaf cynhaliwyd archwiliad gan y gwasanaethau o'u trefniadau penodi diogel. Dangosodd y gwaith hwn bod gwasanaethau'n hyderus bod eu trefniadau DBS yn gadarn. Mae'r archwiliad ar gwrdd â'r gofynion hyfforddi yn mynd rhagddo.

## 4. Archwiliadau Allanol a'u derbyniwyd yn ystod y cyfnod

4.1 Cafodd rhaglen arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) ei chanslo ym mis Mawrth 2020 oherwydd y pandemig byd eang. Rhoddwyd rhaglen o wiriadau sicrwydd ar waith ym mis Mehefin 2021 a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Pa mor dda y mae'r Awdurdod Lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl yn ddiogel a hyrwyddo eu llesiant?
- Beth mae'r Awdurdod Lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref at eu teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

Cafodd Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaeth Plant a Theuluoedd Cyngor Sir Ynys Môn eu harolygu yn y cyd-destun hwn ym mis Mehefin 2021. Roedd yr adroddiad dilynol yn un ffafriol gyda'r penawdau canlynol:

- Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn ystod amgylchiadau heriol y pandemig
- Gweithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn effeithiol
- Arweinyddiaeth gadarn gan uwch swyddogion
- Gweithlu gwybodus a medrus
- Aelodau etholedig yn cymryd perchnogaeth ac yn arddangos dealltwriaeth dda o rôl y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Diwylliant o ddysgu
- Partneriaethau da â darparwyr allanol

4.2 Nodwyd rhai meysydd ar gyfer gwella:

- Rhestr aros faith ar gyfer asesiadau Therapi Galwedigaethol o fewn y Gwasanaethau Oedolion
- Rhywfaint o ddyblygu o ran atgyfeiriadau Iechyd ac Awdurdod Lleol a all arwain at oedi wrth ddarparu gwasanaeth i rai oedolion
- Y broblem recriwtio sy'n bodoli'n genedlaethol ym maes Gwasanaethau Oedolion yn cael ei theimlo'n fawr yn Ynys Môn

## 5. Y bwriad wrth edrych ymlaen

5.1 Bydd y meysydd datblygu yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau datblygu gwasanaeth.

5.2 Fel sydd wedi ei nodi ar gychwyn yr adroddiad hwn, mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu ac uchafu'r maes Diogelu trwy sicrhau ei fod yn derbyn ystyriaeth drawsadrannol a sylw cyngor cyfan - yn hytrach na'i fod yn cael ei weld fel cyfrifoldeb rhai gwasanaethau yn unig. Bydd y Bwrdd Diogelu Strategol yn datblygu at yr hyn sydd wedi ei gyflawni er mwyn sicrhau trosolwg o'r agenda diogelu ehangach, a chryfhau eu trefniadau herio a dal i gyfrif.

5.3 Mae'r meysydd blaenoriaeth wedi eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol. Bydd Cynllun newydd mewn lle ar gyfer 2021/22.

**Atodiad 1**

**Diogelu Corfforaethol**

**Cynllun Gweithredu  Mehefin 2020- Medi 2021**

Fersiwn 2 – Wedi ei gymeradwyo
Cyflwynir mewn trefn dyddiad

Medi 2021

**Cyflwyniad**

Mae'r Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol yn ychwanegu at gyflawniadau ei ragflaenydd ac yn ymgorffori'r agendâu ehangach. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar weithredu awdurdod cyfan. Nid yw gweithredoedd unigol y gellir eu cynnwys ar lefel gwasanaeth unigol yn cael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu hwn: gan y byddant yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynlluniau Cyflawni'r Gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn: a chânt eu monitro felly. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar faterion traws-wasanaethau: a meysydd allweddol lle dylai'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol gynnal trosolwg. Yn ychwanegol at y Dyletswyddau Diogelu a gynhwysir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 mae cyfeiriad at faterion diogelu ehangach. Gellir gweld crynodeb byr o'r meysydd hynny yng nghefn y cynllun hwn.

**Strwythur y Cynllun Gweithredu**

Bydd y cynllun gweithredu'n cael ei gyflwyno yn erbyn chwe thema: gan gynorthwyo dull cydgysylltiedig o gyflawni'r gweithredoedd ar draws yr Awdurdod Lleol.

| Thema | Rhif yr Amcan | Canlyniad |
|---|---|---|
| Arweinyddiaeth a Llywodraethu Corfforaethol | Amcan 1 | Cymorth, polisïau a gweithdrefnau adrodd lefel uchel yn y Sefydliad |
| Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth: Sgiliau Staff a Hyfforddiant | Amcan 2 | Gweithlu sydd â'r gallu i gyflawni ei ddyletswyddau diogelu'n effeithiol - trwy ymwybyddiaeth a hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n gymesur â'u rolau a'u cyfrifoldebau |
| Gweithlu Diogel | Amcan 3 | Gweithlu sy'n cael ei recriwtio a'i reoli i gydymffurfio'n llawn â gofynion statudol a Pholisi Recriwtio a Dewis, Polisi DBS a Pholisi Recriwtio Mwy Diogel Cyngor Sir Ynys Môn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| Cefnogaeth ac Ymyraethau Effeithiol | Amcan 4 | Prosesau, Gweithdrefnau a Systemau Perthnasol ar waith sy'n adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol, canllawiau a disgwyliadau statudol ac arfer gorau a dderbynnir, fel bod swyddogion yn glir beth sy'n rhaid neu y gellir ei wneud mewn amgylchiadau penodol ac yn diffinio terfynau disgresiwn proffesiynol. |
| Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynir | Amcan 5 | Mae'r Strategaeth Gaffael a'r Strategaeth Rheoli Contractau yn cyd-fynd â Chod Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi<br><br>Sicrhau arferion diogel mewn gwasanaethau a gomisiynir a bod pob darparwr yn arfer ei gyfrifoldebau diogelu yn effeithiol. |

**Dangosyddion Statws COMG yn cyfeirio at Raglenni/Prosiectau**

| | |
|---|---|
| **COCH** | **Hwyr**<br><br>Oedi yn erbyn gweithredoedd / amcanion neu ffactorau llwyddiant critigol o fwy na phedair wythnos<br><br>Materion / risgiau sylweddol a allai atal y prosiect rhag cael ei gwblhau mewn pryd neu o fewn y gyllideb. |
| **OREN** | **Ar ei hôl hi**<br><br>Oedi yn erbyn gweithredoedd / amcanion neu ffactorau llwyddiant critigol o fwy na phythefnos<br><br>Penderfyniadau sy'n ofynnol gan Uwch-swyddog Cyfrifol/ Cyfarwyddwr a / neu'r Bwrdd |
| **MELYN** | **Yn unol â'r amserlen**<br><br>Mae'r prosiect yn unol â'r amserlen ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau mewn pryd |
| **GWYRDD** | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Gweithred / tasg /prosiect wedi'i gwblhau |
| **GLAS** | **HEB GYCHWYN** |

**Arweinyddiaeth a llywodraethu Corfforaethol**
**Amcan 1 - Cymorth, polisïau a gweithdrefnau adrodd lefel uchel yn y Sefydliad Anwen**

| Tasg Allweddol | Pwy | Erbyn Pryd | Cynnydd | COMG |
|---|---|---|---|---|
| Cryfhau hunanarfarniad blynyddol ar gyfer gwasanaethau ac adrodd i fyrddau gweithredol a strategol. Templed newydd wedi'i ddatblygu i'w gynnwys yn y broses Her Gwasanaeth | Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad | 31 Mawrth 2021 | Trafodaeth â'r Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Rheoli Perfformiad ac awgrymu bod hyn yn cael ei ystyried ar gyfer y gyfres nesaf o adolygiadau gwasanaeth oherwydd Covid. | |
| Mabwysiadu'r protocolau rhannu gwybodaeth ofynnol a ddatblygwyd gan y byrddau rhanbarthol - y Bwrdd Cystadlu a Chaethwasiaeth Fodern | Dirprwy Brif Weithredwr | 31 Mawrth 2021 | Angen cyfarwyddyd o ran a oes angen y rhain o hyd. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bydd cyfarfodydd y Bwrdd Diogelu Strategol yn cael eu cofnodi'n ffurfiol, pwyntiau gweithredu'n cael eu cofnodi a chofnodion yn cael eu cylchredeg yn briodol.<br><br>Bydd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadeirio'r rhan hon o'r cyfarfod i sicrhau y caiff perfformiad ei herio lle bo hynny'n briodol a bod y Bwrdd yn cyflawni ei gyfrifoldebau allweddol. | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol | 31 Mawrth 2021 | | |
| Mae'r Bwrdd Strategol yn cynnal dau weithgaredd sicrhau fel bod modd gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n gweithredu polisïau ac arferion diogelu'n gyson:-<br><br>- Cydymffurfio â Hyfforddiant<br>- Asesu Risg | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol | Cydymffurfio â Hyfforddiant - 31 Mawrth 2021<br><br>Asesu Risg- 30 Medir 2021 | | |
| **Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth Teresa a Miriam**<br>**Gweithlu sydd â'r gallu i gyflawni eu dyletswyddau diogelu'n effeithiol - trwy ymwybyddiaeth a hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n gymesur â'u rolau a'u cyfrifoldebau** | | | | |
| **Tasg Allweddol** | **Pwy** | **Erbyn Pryd** | **Cynnydd** | |
| Adolygu'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Corfforaethol | Grŵp Tasg i'w adnabod:- Uned Datblygu'r Gweithlu<br><br>Rheolwr Gwasanaeth Ansawdd a Diogelu<br><br>Cadeirydd a Chynrychiolydd o'r Bwrdd Gweithredol | 30 Medi 2021 | | |
| **Ymwybyddiaeth** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sicrhau fod yr holl staff yn cwblhau modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth Sylfaenol - Caethwasiaeth Fodern | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 30 Medi 2021 | | |
| Sicrhau fod yr holl staff yn cwblhau modiwl e ddysgu Ymwybyddiaeth Sylfaenol – Atal | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 30 Medi 2021 | | |
| Cydlynu rhaglen o weithgareddau ar gyfer Wythnos Genedlaethol Diogelu. | Rheolwr Gwasanaeth Ansawdd a Diogelu | 30 Tachwedd 2021 | | |
| Lansio adran Diogelu Corfforaethol Monitor. | Grŵp Tasg wedi'i sefydlu | 30 Medi 2021 | Bydd rhaid i'r dyddiad gyd-fynd â'r prosiect corfforaethol i ddiweddaru Monitor | |
| Sicrhau fod yr holl staff yn cwblhau Ymwybyddiaeth Sylfaenol - Camfanteisio | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 31 Mawrth 2022 | | |
| **Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol a VAWDASV** | | | | |
| Sicrhau fod yr holl staff yn cwblhau Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Lefel 1 VAWDASV trwy E-Ddysgu neu'r llyfrynnau - gan gynnwys y staff hynny sy'n newydd i'r awdurdod | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 31 Mawrth 2021 | | |
| Lefel 3 Hyrwyddwr Gofyn a Gweithredu yn ei le ar gymhareb o un hyrwyddwr i bob deg hyfforddwr Gofyn a Gweithredu | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 30 Medi 2020 | | |
| Uwch-arweinyddion yr Awdurdod Lleol - Aelodau ac Uwch-swyddogion - yn cwblhau Lefel 6 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Gofyn a | Uwch-dîm Arweinyddiaeth<br>Penaethiaid Gwasanaeth<br>Aelodau | 30 Medi 2020 | Bydd angen i Uwch Arweinyddion nodi a ydynt wedi cwblhau | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweithredu - trwy gyfres o glipiau fideo. | | | | |
| Cychwyn cyflwyno Lefel 2 Gofyn a Gweithredu<br>▪ Bydd yn rhaid i wasanaethau adnabod y rhai hynny sydd mewn sefyllfa i ofyn a gweithredu<br>▪ Sefydlu cynllun i gyflwyno Lefel 2 ar draws gwasanaethau mewn grwpiau blaenoriaeth er mwyn llywio cynllun rhanbarthol | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth gyda chymorth Uned Datblygu'r Gweithlu | 31 Mawrth 2022 | Bwriad i ddarparu sesiynau yn 2021/22 | |

**Gweithlu Diogel - Gwyneth**
**Amcan 3 - Gweithlu wedi'i recriwtio a'i reoli i gydymffurfio'n llawn â gofynion statudol a Pholisi Recriwtio a Dewis, Polisi DBS a Pholisi Recriwtio Mwy Diogel Cyngor Sir Ynys Môn.**

| Tasg Allweddol | Pwy | Erbyn Pryd | Cynnydd | |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i Benaethiaid Gwasanaeth sicrhau trefniadau cadarn i<br>- Cynnal cofnod canolog swyddi y mae gwiriad DBS yn ofynnol ar eu cyfer: yn cynnwys gwiriad a rheolaeth ddigonol i fod yn symbylydd pe na fyddid yn cydymffurfio.<br>- Cael a gwirio geirdaon mewn perthynas â swyddi gweithgarwch a reoleiddir<br>- Cofrestru am hyfforddiant diogelu<br>- P'run a yw asesiadau risg ffurfiol wedi'u cwblhau a bod mesurau yn eu lle cyn i weithiwr ddechrau gweithio | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 31 Mawrth 2021 | Bydd rhaid i Uwch Arweinyddion gynghori ynglŷn â'u sefyllfa hwy | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| mewn amgylchiadau eithriadol lle nad oes datgeliad DBS wrth law<br>- P’run a yw mesuriadau ac asesiadau risg ffurfiol yn eu lle os oes amheuaeth ynghylch pryderon diogelu neu y gwyddys am y pryderon hyn o ran gweithwyr sydd eisoes yno | | | | |
| Gweithredu system e-swmp y DBS a fydd, unwaith y bydd wedi'i gweithredu, yn fodd i'r Cyngor gyflwyno sawl cais electronig am dystysgrifau DBS a derbyn y canlyniadau yn electronig.<br><br>Bydd gwaith cydymffurfio â’r DBS yn cael ei fonitro gan Wasanaethau ond gellir gwneud hyn ar-lein fel na fydd yn rhaid i Wasanaethau gadw cofnodion llaw ar wahân. | Pennaeth Gwasanaeth: Adnoddau Dynol a Thrawsnewid<br><br>Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 31 Mawrth 2021 | | |
| Safoni'r arfer o storio a nodi asesiadau risg a chael gwared â nhw mewn perthynas â gweithwyr: | Cynrychiolydd o’r Bwrdd Gweithredol | 31 Mawrth 2021 | | |
| Adolygu'r Polisi Cam-drin domestig yn y Gweithlu yn unol â'r cyflwyniad Gofyn a Gweithredu | Grŵp Tasg i’w adnabod:- Adnoddau Dynol<br><br>Rheolwr Partneriaeth Gymunedol<br><br>Hyrwyddwyr Grŵp 3 Gofyn a Gweithredu | 31 Mawrth 2021 | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cefnogaeth i staff sy'n gweithio ym maes diogelu plant ac oedolion yn dilyn digwyddiad difrifol<br><br>Mapio trefniadau perthnasol ym mhob gwasanaeth yn erbyn y gofynion yn y canllawiau, a nodi unrhyw gamau sy'n ofynnol | Bwrdd Gweithredol | 31 Mawrth 2022 | | |

**Cefnogaeth ac Ymyriadau Effeithiol - Llŷr**

**Amcan 4 - Prosesau, Gweithdrefnau a Systemau Perthnasol ar waith sy'n adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol, canllawiau a disgwyliadau statudol ac arfer gorau a dderbynnir, fel bod swyddogion yn glir beth sy'n rhaid neu y gellir ei wneud mewn amgylchiadau penodol a diffinio terfynau disgresiwn proffesiynol.**

| Tasg Allweddol | Pwy | Erbyn Pryd | Cynnydd | |
|---|---|---|---|---|
| Sicrhau fod Gweithdrefnau Cenedlaethol Diogelu yn cael eu gweithredu yn unol â chyfeiriad a osodir gan y Byrddau Diogelu rhanbarthol. | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 31 Mawrth 2021 | | |
| Datblygu gwybodaeth, llwybrau cyfeirio a chanllawiau arfer da i godi ymwybyddiaeth ynghylch caethwasiaeth fodern a'r ddyletswydd i gyfeirio drwodd i'r Mecanwaith Cyfeirio Cyffredinol (NRM) lle mae pryder ynghylch masnachu mewn pobl at ddibenion cam-fanteisio. | Rheolwr Gwasanaeth Ansawdd a Diogelu | 31 Mawrth 2021 | Disgwyl am y cynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol. | |
| Canllawiau Arfer Da ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus anarbenigol yng Nghymru ar weithio gydag oedolion sy'n cyflawni troseddau yn erbyn menywod a chyflawnwyr trais domestig a thrais rhywiol. – Bydd pob | Bwrdd Gweithredol | 31 Mawrth 2022 | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth yn ystyried rhwymedigaethau'r Canllawiau iddyn nhw. Er bod rhai materion yn benodol i rai gwasanaethau, mae eraill yn berthnasol i'r sefydliad cyfan - Materion Iechyd a Diogelwch; Materion Polisi Cam-drin Domestig y Gweithlu; Hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth. | | | | |

**Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynir – Arwel a Sioned**

**Amcan 5 Sicrhau arferion diogel a moesegol wrth gaffael a rheoli contractau mewn gwasanaethau a gomisiynir fel bod gofynion diogelu'n cael eu bodloni.**

| Tasg Allweddol | Pwy | Erbyn pryd | Cynnydd | |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu Safonau Diogelu ar gyfer Caffael a Rheoli Contractau | Bwrdd Gweithredol | 30 Rhagfyr 2020 | | |
| Llunio datganiad ysgrifenedig blynyddol i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn y sefydliad a'r gadwyn gyflenwi, | Dirprwy Brif Weithredwr | 30 Medi 2021 | | |
| Ymgorffori'r gofyniad i ddarparu a chael mynediad at hyfforddiant am y ***Ddyletswydd Atal (Prevent)*** a'r cyfrifoldebau diogelu cysylltiedig ar gyfer gwasanaethau perthnasol yr ydym yn eu comisiynu | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 31 Mawrth 2021 | Cymalau Contract safonol yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd atal (Prevent). | |
| Ar ôl mabwysiadu'r Safonau Diogelu ar gyfer Caffael a Rheoli Contractau, rhaid i'r holl Wasanaethau roi rhaglen ar waith ar gyfer adolygu contractau presennol er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â'r safonau / gofynion a nodwyd, gan gynnwys | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth | 31 Mawrth 2022 | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| sut maent yn cynnig monitro bod y darparwyr yn cydymffurfio â'r gofynion. | | | | |

Isod ceir trosolwg o’r hyfforddiant a ddarparwyd ar draws y Cyngor (Tachwedd 2021):

| Gwasanaeth | Trais yn Erbyn Menywod % | GDPR % | Caethwasiaeth Fodern % | Ymwybyddiaeth Seiber % | Atal % |
|---|---|---|---|---|---|
| **Oedolion** | 92% | 90% | 89% | 87% | 88% |
| **Plant** | 89% | 87% | 85% | 84% | 82% |
| **Trawsnewid** | 97% | 97% | 96% | 97% | 97% |
| **Busnes y Cyngor** | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | 80% | 55% | 56% | 83% | 48% |
| **Tai** | 95% | 95% | 92% | 91% | 89% |
| **Dysgu** | 93% | 91% | 90% | 91% | 91% |
| **Uned Darparu** | 80% | 68% | 66% | 65% | 65% |
| **Rheoleiddio A Datblygu Economaidd** | 95% | 95% | 95% | 94% | 94% |
| **Adnoddau** | 99% | 99% | 99% | 97% | 93% |
| **Ysgolion** | 79% | 66% | 69% | 52% | 49% |
| **Cyflawn** | **84%** | **74%** | **75%** | **65%** | **64%** |

**CYD-DESTUN**

| | |
|---|---|
| Dyletswydd Atal (Prevent) | Dyletswyddau cyfreithiol o dan **Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015**. Rydym yn amcanu at: -<br><br>▪ Atal pobl rhag cael eu denu gan derfysgaeth, wrth gyflawni ein gwahanol swyddogaethau.<br>▪ Nodi a chefnogi pobl fregus fel rhan o’n cyfrifoldebau diogelu ehangach.<br>▪ Sefydlu polisïau a gweithdrefnau priodol.<br>▪ Sicrhau bod staff yn wybodus am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud os byddant yn dod ar draws neu’n dod yn ymwybodol o bobl sy’n cael eu tynnu i mewn neu’n cynllunio gweithred derfysgol.<br>▪ Cynnal cofnodion llawn a phriodol o gamau a gymerir a fydd yn gwrthsefyll y broses graffu.<br><br>Mae gan Fwrdd Herio (Contest) Gogledd Cymru Gynllun Gweithredu Rhanbarthol: ac mae’r camau sydd yn y cynllun hwn yn cynorthwyo’r Awdurdod Lleoli i gyflawni gofynion perthnasol y Cynllun Rhanbarthol.<br><br>Mae’r Prif Weithredwr Cynorthwyol yn derbyn ac yn adolygu Proffil Lleol Gwrthderfysgaeth a bydd yn rhoi gwybod i’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth am unrhyw risg newydd/gynyddol o radicaleiddio neu eithafiaeth er mwyn gallu diweddaru’r gofrestr risg gorfforaethol |
| Caethwasiaeth Fodern | Dyletswyddau cyfreithiol o dan **Ddeddf Caethwasiaeth Fodern** 2015. Rydym yn amcanu at: - |

| | |
|---|---|
| | ▪ Gyhoeddi Datganiad Blynyddol, nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn y sefydliad nac yn ein cadwyn gyflenwi.<br><br>▪ Penodi Pencampwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol.<br><br>▪ Nodi a chefnogi pobl fregus fel rhan o'n cyfrifoldebau diogelu ehangach.<br><br>▪ Hysbysu'r Swyddfa Gartref ynghylch Dioddefwyr Posibl Caethwasiaeth Fodern.<br><br>▪ Cyfeirio dioddefwyr posibl fel ymatebwr cyntaf i awdurdod cymwys, (Uned Caethwasiaeth Fodern Masnachu Pobl – MSHTU), drwy'r Dull Cyfeirio Cenedlaethol.<br><br>▪ Cyfeirio unrhyw blant sydd o bosibl yn destun masnachu plant i'r Eiriolwyr Annibynnol ar Fasnachu Plant (ICTAs).<br><br>▪ Sefydlu polisïau a gweithdrefnau.<br><br>▪ Sicrhau bod staff yn gwybod beth y mae angen iddynt ei wneud os byddant yn dod ar draws neu'n dod yn ymwybodol o bobl sy'n cael eu tynnu i mewn neu'n cynllunio gweithred derfysgol.<br><br>▪ Cynnal cofnodion llawn a phriodol o gamau a gymerir a fydd yn gwrthsefyll y broses graffu<br><br>Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, byddwn hefyd yn ystyried y cysylltiadau â'r rhaglen Llinellau Sirol (gangiau cyffuriau cyfundrefnol), sy'n galw am gydweithio i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gweithgarwch Llinellau Sirol, fel Masnachu Pobl, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, troseddu, troseddu treisgar, troseddau cyffuriau, troseddau ariannol, cam-fanteisio ar oedolion bregus. Wrth i'r rhaglen hwn ddatblygu, gellir cynnwys dyletswyddau ychwanegol at y safonau/gweithgareddau diogelu hyn.<br><br>Mae gan Fwrdd Herio (Contest) Gogledd Cymru Gynllun Gweithredu Rhanbarthol: ac mae'r camau sydd yn y cynllun hwn yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleoli i gyflawni gofynion perthnasol y Cynllun Rhanbarthol.<br><br>Annwen Morgan, Prif Weithredwr Cynorthwyol, yw'r Pencampwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol. |
| Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) | Rydym yn amcanu at: -<br><br>▪ Amddiffyn plant ac oedolion yn ein hardal a allai fod mewn risg neu sy'n cael eu cam-drin, eu hesgeuluso a mathau eraill o niwed ac;<br><br>▪ Atal plant ac oedolion yn ein hardal rhag bod mewn risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso a mathau eraill o niwed.<br><br>▪ Sicrhau bod arfer diogelu, cynllunio strategol a chomisiynu gwasanaethau ar draws yr holl asiantaethau partner yn gwella'n barhaus ac yn hybu canlyniadau da i blant ac oedolion a allai fod mewn risg yn yr ardal leol.<br><br>▪ Amddiffyn plant a phobl ifanc yn gadarn trwy ddull aml-asiantaeth gyda phartneriaid a chymunedau. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn adlewyrchu gofynion Strategaeth CSE Gogledd Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i chwarae rhan lawn yng Ngrŵp Gweithredol CSE Gogledd Cymru, a chefnogi gweithgorau rhanbarthol a chenedlaethol i raeadru a datblygu modelau arfer gorau o safbwynt mynd i'r afael â Cham-fanteisio'n Rhywiol ar Blant.<br><br>Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, byddwn hefyd yn ystyried y cysylltiadau â'r rhaglen Llinellau Sirol (gangiau cyffuriau cyfundrefnol), sy'n galw am gydweithio i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gweithgaredd Llinellau Sirol, fel Masnachu Pobl, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, troseddu, troseddu treisgar, troseddau cyffuriau, troseddau ariannol, cam-fanteisio ar oedolion bregus. Wrth i'r rhaglen hon ddatblygu, gellir cynnwys dyletswyddau ychwanegol at y safonau/gweithgareddau diogelu hyn. |
| Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Dyletswyddau Cyfreithiol – **Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**<br><br>▪ Gofyn a Gweithredu - Prosiect cenedlaethol wedi'i dargedu ar draws Awdurdodau Cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dyletswydd sefydliadol i annog gweithwyr proffesiynol perthnasol i "Ofyn" i ddioddefwyr posibl mewn amgylchiadau penodol (ymholi wedi'i dargedu) a "Gweithredu" er mwyn sicrhau bod niwed o ganlyniad i drais a cham-drin yn cael ei leihau<br><br>▪ Darparu Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Merched, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol<br><br>▪ Mae'n cynnwys cyfathrebu, hyfforddi, datblygu polisi, rhannu gwybodaeth, llwybrau cyfeirio at wasanaethau arbenigol, casglu ac adolygu data<br><br>Y Bwrdd Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru yw'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol: gan ddarparu dull partneriaeth i atal niwed difrifol a achosir gan drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Ngogledd Cymru. Maent yn arwain ac yn cefnogi'r broses o weithredu'r ddeddf: gan ddatblygu, cymeradwyo a monitro'r strategaeth ranbarthol; gan sicrhau bod materion yn cael sylw strategol ac effeithiol yng Ngogledd Cymru.<br><br>Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau strategol rhanbarthol o ran ymwybyddiaeth a darparu'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol.<br><br>Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau cymdeithasol, yw'r Swyddog Arweiniol ar gyfer Gofyn a Gweithredu a'r Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd) yw'r Pencampwr Gofyn a Gweithredu |

**Cyfrifoldeb Pawb**

Yn eu Cynlluniau Darparu Gwasanaeth, bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn cynnwys targedau Diogelu ar gyfer y flwyddyn ac yn adrodd am gynnydd o fewn adolygiadau perfformiad corfforaethol.

**Cyfathrebu o fewn y Sefydliad**

Rhaid i'r cynrychiolwyr yn y Byrddau Rhanbarthol amrywiol y cyfeirir atynt uchod ac eraill - Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru, Bwrdd Cymunedau, sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol (strategol) am brif faterion a drafodwyd ar sail ranbarthol: sydd angen ymateb lleol ar sail gorfforaethol. Dylai'r prif swyddogion, ar gais cadeirydd y Bwrdd Diogelu

Corfforaethol (strategol), baratoi diweddariadau ynghylch y ddarpariaeth, prif faterion risg i blant ac oedolion mewn risg, yn cynnwys coladu a monitro nifer, natur a chanlyniadau atgyfeiriadau.

Bydd y Prif Weithredwr Cynorthwyol/Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau bod Aelodau'r Cyngor ac uwch swyddogion arweiniol, aelodau eraill yr Uwch Dîm Arweiniol a Phenaethiaid yn cael eu briffio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu.

Pan fo angen darperir gwybodaeth/bwletinau/erthyglau diogelu angenrheidiol ar gyfer staff mewn deunydd cyfathrebu perthnasol i staff mewnol. Cyfrifoldeb y Bwrdd Diogelu Corfforaethol (Gweithredol) fydd hyn.

**Hyfforddiant**

Rhaid i bob Pennaeth Gwasanaeth sicrhau bod pob aelod o staff yn mynychu hyfforddiant Diogelu Sylfaenol, Cyffredinol neu Arbenigol ar lefel sy'n berthnasol i'w rôl. Mae gofynion hyfforddi penodol eraill wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu hwn. Bydd gan rai gwasanaethau anghenion hyfforddi penodol i'w rolau. Ni adlewyrchir hyn yn y cynllun hwn – gan fod y ffocws ar hyn o bryd ar godi ymwybyddiaeth gorfforaethol: a chydymffurfio o safbwynt dysgu/hyfforddiant mandadol drwy'r sefydliad.

# Adroddiad Asiantaeth Bartner ar gyfer Grwpiau Cyflawni Lleol BDPGC

**Darparwch y data canlynol ar gyfer y chwarter diwethaf**
**A wnewch chi sôn am y gwaith y mae'ch asiantaeth wedi'i i gyflawni mewn perthynas â Blaenoriaethau'r Bwrdd?**

## 1. Hyrwyddo ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth o ran y Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan Newydd (BDPGC)

- Diwygio adroddiadau cynhadledd y gwasanaeth i ystyried y gweithdrefnau
- Diwygio'r adroddiad asiantaethau partner mewn ymgynghoriad â phartneriaid i gryfhau llais y plentyn
- Datblygu cynlluniau diogelu gofal a chymorth / cofnodion grŵp craidd newydd. Wedi'i gefnogi gan hyfforddiant a gomisiynwyd yn allanol a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau diogelu gofal a chymorth
- Cyflwyniad i arweinwyr diogelu ym maes Addysg i hyrwyddo gweithdrefnau gan roi pwyslais ar 'Lais y Plentyn' a phrofiad dyddiol y plentyn.
- Cynnal ymchwil gyda theuluoedd mewn perthynas â chynnal cynadleddau yn y dyfodol yn dilyn eu profiad o gynadleddau rhithwir. Ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal cynadleddau hybrid ar hyn o bryd
- Wrthi'n adolygu'r holl gynlluniau diogelu gofal a chymorth i ddod o hyd i broblemau o ran oedi/ansawdd cynlluniau

- Sesiynau dysgu yn ystod 2021 yn gysylltiedig â Gweithdrefnau Diogelu Cymru:
    - Archwilio Cyfarwyddyd a Deddfwriaeth sy'n tanategu ymarfer
    - Edrych yn benodol ar Weithdrefnau Diogelu Cymru
    - Defnyddio'r Gronoleg fel arf asesu ac ymarfer
    - Llais y Plentyn
    - Profiad byw'r plentyn
    - Paratoi ar gyfer cynhadledd achos
    - Cymryd rhan mewn cynhadledd achos
    - Adolygu cynadleddau achos
    - FFURFLENNI cynhadledd achos newydd ar WCCIS
    - Yr iaith a ddefnyddir yn ystod cynhadledd
    - Rôl y Grŵp Craidd – datblygu cynllun amddiffyn plant
    - Amlder cyfarfodydd y Grŵp Craidd
    - Adolygu'r Cynllun Diogelu Gofal a Chymorth
    - Ymweld â'r plentyn yn y cartref – cofnodi'n effeithiol
    - Cynllunio a Gwerthuso'n Seiliedig ar Ganlyniadau
    - Deall Canlyniadau Personol
    - Archwilio meddylfryd sy'n seiliedig ar ganlyniadau

**2. Parhau i sicrhau dull cadarn, gwydn a chyson o ymarfer diogelu yn ystod y pandemig Covid-19 (BDGC)**

- Canfyddiadau Prawf Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru:
    - Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol dan amgylchiadau heriol y pandemig
    - Gweithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn effeithiol
    - Arweinyddiaeth gadarn gan uwch swyddogion
    - Gweithlu gwybodus a medrus
    - Diwylliant o ddysgu
    - Partneriaethau da gyda darparwyr allanol
- Gweithlu sefydlog gyda throsiant staff sy'n is na'r targed o 10% ar gyfer Awdurdodau Lleol yn gyson. Canolbwyntio'n graff ar lesiant staff yn ystod y pandemig.

- Adolygu safonau ymarfer i sicrhau eu bod yn gadarn yng ngoleuni cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig/cyfnodau clo. Bellach wedi dychwelyd i'r safonau gwreiddiol.

- Asesu’r math o ymweliad sydd ei angen fesul achos
- Parhau i werthuso ymarfer drwy’r fframwaith sicrwydd ansawdd
- Defnyddio data i ddeall amrywiadau yn y galw am wasanaeth
- Defnyddio technoleg i sicrhau bod cyfarfodydd asiantaeth allweddol yn parhau i gael eu cynnal

**3. Os gwelwch yn dda nodwch enghraifft o arfer da a arweiniodd at ganlyniadau positif mewn perthynas ag ymarfer diogelu neu enghraifft o sefyllfa heriol a sut deliwyd â’r mater ayb.**

Plentyn ar y gofrestr ar adeg ei eni hyd nes ei fod yn flwydd oed.

Yn hanesyddol roedd brodyr/chwiorydd Plentyn A wedi’u symud o ofal y fam. Roedd problemau yn gysylltiedig â rhieni’n dioddef problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a pherthnasau cam-drin domestig, ac o ganlyniad roedd y plant yn cael eu hesgeuluso. Roedd y Gwasanaethau Plant yn poeni y gallai profiad Plentyn A fod yn debyg i’w frodyr/chwiorydd hŷn.

Nid tad Plentyn A oedd tad plant eraill y fam. Roedd gan dad Plentyn A hanes o gamddefnyddio sylweddau (canabis yn bennaf) ac roedd hefyd wedi cyflawni trais domestig.

Yn ystod y gynhadledd gychwynnol roedd y fam yn agored a gonest ynglŷn â’i phroblemau iechyd meddwl a’i hanes o gamddefnyddio sylweddau. Roedd y tad yn agored ynglŷn ag ysmygu canabis ond dywedodd ei fod yn ei reoli mewn ffordd ddiogel; roedd yn gallu rhoi manylion ynglŷn â’r risgiau i’r babi yn gysylltiedig â chanabis unwaith y byddai wedi cael ei eni.

Cafodd cynllun diogelu ei greu ar y cyd â’r rheini fel rhan o’r cynllun diogelu gofal a chymorth. Erbyn y gynhadledd adolygu, roedd y teulu’n destun proses cyn-achos oherwydd pryderon sylweddol ynglŷn â chyflwr gwael y cartref. Bu i’r Awdurdod Lleol lanhau’r cartref yn drylwyr er mwyn darparu meincnod. Fe lwyddodd y Tîm Teuluoedd Gwydn i ymgysylltu â’r teulu yn ogystal gan lwyddo i ganfod pa newidiadau yr oedd y teulu’n dymuno’u gwneud a pham.

Ar ôl glanhau’r cartref yn drylwyr gwelwyd gwelliant sylweddol. Llwyddodd y teulu i ddod o hyd i gartrefi newydd i rai o’u hanifeiliaid anwes, ac fe wnaethant ddatblygu a chynnal arferion glanhau ac ymgysylltu’n llawn gyda holl aelodau’r grŵp craidd a gofyn am gyngor gan yr ymwelydd iechyd os oedd ganddynt bryderon ynglŷn ag iechyd neu ddatblygiad Plentyn A. Fe wnaeth y rhieni hefyd addasu eu dull rhianta wrth i anghenion Plentyn A newid (e.e. pan ddechreuodd gerdded).

Roedd y rhieni bob amser ar gael yn ystod ymweliadau gan weithwyr proffesiynol. Roedd disgrifiad y gweithiwr cymdeithasol o Blentyn A yn dda yn ystod dogfennau ymweliad statudol, ei edrychiad,

sut yr oedd yn rhyngweithio â’r rhieni, ei dymer yn gyffredinol, os oedd cyswllt llygaid rhyngddo ef a’i rieni, os oedd yn gwenu, os oedd wedi ymlacio ym mhresenoldeb ei rieni, os oedd yn mynd atynt i gael ei gysuro. Gan nad oedd Plentyn A yn gallu mynegi ei hun ar lafar yn ystod y gynhadledd cafodd ei ddymuniadau a’i deimladau eu cyfleu drwy wrando ar y disgrifiadau a ddarparwyd gan y gweithiwr cymdeithasol a’r ymwelydd iechyd.

Ymgysylltodd y fam â’r rhaglen rhyddid a llwyddodd i adlewyrchu ar natur ei pherthnasau yn y gorffennol nad oedd yn rhai iach. Ymgysylltodd y fam â’r gwasanaeth iechyd meddwl a llwyddodd i adlewyrchu ar yr anawsterau yr oedd wedi’u hwynebu yn y gorffennol ac o ble yr oeddent wedi deillio.

Bu i’r fam a’r tad ymgysylltu’n dda â’r Tîm Teuluoedd Gwydn, mewn perthynas â’r meysydd a nodwyd gan y rhieni.

Erbyn hyn mae N.T. yn flwydd oed ac yn ffynnu ym mhob maes datblygu. Erbyn hyn nid yw’n destun cyn-achos nac ar y gofrestr amddiffyn plant.

Pwyntiau dysgu allweddol:

- Meithrin ymddiriedaeth
- Meithrin ysgogiad ar ail yr ymddiriedaeth honno

Atodiad 3

# Adroddiad i: Grŵp Cyflawni - Diogelu Oedolion

Dyddiad: 26:07:2021

**Swyddog adrodd:** Olwena Davey Rheolwr Oedolion mewn Perygl

**Pwnc:** Adroddiad Perfformiad Oedolion mewn Perygl Awdurdod Lleol

## Adroddiad Amlygu

## 1.0. Gwybodaeth Perfformiad

### Oedolion mewn Perygl

**Ystadegau ymholiad Oedolion mewn Perygl**

| **Gwybodaeth Perfformiad Oedolion mewn Perygl** | **Data CH4** | **CH1** |
|---|---|---|
| Cyfanswm Ymholiadau (Pryderon Diogelu) | 60 | 77 |
| Yn cwrdd â'r Trothwy | 50 | 60 |
| Ddim yn cwrdd â'r Trothwy | 10 | 17 |

| **Cyfanswm nifer yr ymholiadau diogelu a gwblhawyd o fewn saith diwrnod gwaith yn ystod y cyfnod hwn** | **% Cyffredinol CH4** | **CH1** |
|---|---|---|
| 52/60 | 82% | 86.67% |

| Math o Gamdriniaeth | Cyfanswm CH4 | CH1 | Wedi mynd ymlaen i ymholiad |
|---|---|---|---|
| Esgeulustod gan gynnwys hunan-esgeulustod | 25 | 52 | 43 |
| Corfforol gan gynnwys cam-drin domestig | 19 | 16 | 11 |
| Rhywiol | 6 | 2 | 2 |
| Seicolegol gan gynnwys camdriniaeth lafar | 18 | 20 | 13 |
| Ariannol | 13 | 15 | 9 |
| Lluosog ac Anhysbys | | | |

| Asiantaeth | Nifer yr Atgyfeiriadau | Nifer yr Atgyfeiriadau | Wedi symud ymlaen i ymholiad |
|---|---|---|---|
| Darparwr Gofal Cartref | 8 | 8 | 7 |
| Cydlynydd Gofal AGC | 5 | 7 | 5 |
| Iechyd | 21 | 20 | 13 |
| Perthynas | 0 | 4 | 4 |
| Heddlu Gogledd Cymru | 4 | 2 | 1 |
| Darparwr Gofal Preswyl (Cartref Preswyl) | 11 | 26 | 24 |
| Eraill gan gynnwys AGC | | 10 | 6 |

Fel mae’r tablau uchod yn ei ddangos, tra bod y nifer o adroddiadau diogelu sydd ddim yn cyrraedd y trothwy wedi lleihau, mae’r nifer o adroddiadau cyffredinol wedi cynyddu bron i 25%. Mae'r niferoedd a ddangosir yn hwnnw'n dangos y rhai na chyrhaeddodd y trothwy i symud ymlaen i ymholiad llawn yn berthnasol. Byddwn yn parhau i fonitro hyn ac efallai y byddwn yn argymell gweithgaredd archwilio yn y cyfarfod nesaf i edrych ar rai o'r achosion at ddibenion dysgu. Mae ymholiadau diogelu a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod wedi gwella'r chwarter hwn ond mae'n parhau i fod yn is na'r cyfartaledd safonol ar gyfer yr Awdurdod Lleol. Bydd angen i'r gwasanaeth edrych ar sut y gallant reoli'r galw ychwanegol a gwella'r ganran wrth symud ymlaen.

Mae esgeulustod yn parhau i fod y math pennaf o gamdriniaeth gyda’r nifer o adroddiadau sy’n cyrraedd y trothwy yn cynyddu yn sylweddol. Mae achosion o gam-drin seicolegol a chorfforol hefyd yn amlwg iawn.

Darparwyr Gofal Preswyl (Cartrefi Preswyl) oedd y brif asiantaeth atgyfeirio gyda chyfraddau adrodd wedi mwy na dyblu o’r chwarter diwethaf. Mi wnaeth un Cartref Preswyl wneud 5 adroddiad ynghylch un aelod o staff oherwydd nifer o bryderon diogelu. Yn unol â'r duedd, mae adroddiadau gan Iechyd yn parhau i fod yn uchel.

## 2.0. Diweddariad ynghylch arfer yn ystod y cyfnod presennol o’r pandemig Covid 19

**Amddifadedd o Ryddid - Diogelu**

**Chwarter** **CH1**

| | |
|---|---|
| Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd | 30 |
| Wedi’u cwblhau | 55 |
| Rhestr Aros | 87 |
| Adolygiadau yn weddill | 0 |

Mae cyfraddau atgyfeirio ac asesiadau a gwblhawyd yn parhau'n gyson ag adroddiadau blaenorol. Nid oes unrhyw adolygiadau yn weddill. Mae'n werth nodi ein bod yn derbyn llai o geisiadau am adolygiadau Rhan 8, sydd bellach ar ei gyfradd isaf ers y pandemig.

Rydym yn bwriadu canolbwyntio ar adolygiadau a pharhau i fynd i'r afael â'r gwaith sy’n weddill yn ystod misoedd yr haf er y bydd llai o gapasiti BIA yn y tîm oherwydd absenoldeb staff a chyfnod sabothol. Byddwn yn monitro'r achosion sy'n aros am niferoedd dyrannu ac efallai y bydd yn rhaid i ni ymateb gyda dull gwahanol pe bai'r niferoedd yn dechrau cynyddu.

Wrth baratoi ar gyfer Trefniadau Diogelu Amddiffyn Rhyddid (LPS), rydym wedi comisiynu asesiad effaith i edrych ar y niferoedd tebygol o ddinasyddion sydd wedi eu heffeithio gan newidiadau ar draws y gwasanaethau plant ac oedolion a’r gost bosibl ynghyd a’r goblygiadau gweithredol. Wrth i ni aros am y Cod Ymarfer, rydym yn awyddus i weithio gydag asiantaethau partner i sefydlu trefniadau lleol.

**Rhan 5**

Er nad ydym wedi adrodd yn ffurfiol ar nifer yr atgyfeiriadau Rhan 5, rydym yn gwybod bod y rhain yn cynyddu'n gyson gyda mwy o atgyfeiriadau'n dod drwodd nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf i symud ymlaen. Daw adroddiadau i raddau helaeth gan CID16 sy’n nodi y gall yr unigolyn weithio mewn swydd o ymddiriedaeth. Fodd bynnag, pan fyddwn yn cynnal ymholiadau, daw'n amlwg nad yw'r unigolyn naill ai'n dal y swydd hon neu nad oes unrhyw gamau pellach gan yr Heddlu. Wrth symud ymlaen byddwn yn archwilio achosion nad ydynt yn cwrdd â'r trothwy i symud ymlaen i sefydlu a oes patrymau amlwg.

| | **CH1** |
|---|---|
| Atgyfeiriadau a dderbyniwyd | 17 |
| Yn cyrraedd y trothwy | 12 |
| Ddim yn cyrraedd y trothwy | 05 |

**Pryderon Cynyddol**

Nid oes unrhyw gartrefi neu asiantaethau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd o dan y broses Pryderon Cynyddol.

**Adolygiadau Ymarfer Oedolion**

Mae un achos yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd o dan y Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (MAPF) sy’n edrych ar y trosglwyddiad rhwng gwasanaethau Plant ac Oedolion. Mae’r panel wedi cyfarfod unwaith ac wedi dechrau ar y broses canfod ffeithiau. Nid oes unrhyw achosion newydd i’w hystyried yn ystod y chwarter hwn.

**Panel Sianel / Prevent**

Ni fu unrhyw atgyfeiriadau yn ystod y chwarter hwn. Mae darn o waith parhaus i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Chanllawiau'r Sianel a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref.

**Sicrhau Ansawdd**

Mae'r Uned Ddiogelu yn parhau i gynnal archwiliadau o alluedd meddyliol ac achosion diogelu. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal adolygiad o atgyfeiriadau Oedolion Hŷn at y tîm Iechyd Meddwl Cymunedol i sefydlu a oes rhesymeg y tu ôl i'r nifer cynyddol o atgyfeiriadau ar gyfer asesiad o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

**MAPPA / MARAC**

Dim newidiadau sylweddol i'w hadrodd yn ystod y chwarter hwn. Mae presenoldeb yr Uned Ddiogelu yn parhau i fod yn gyson. Mae mynediad i MARAC yn parhau i fod yn her gan fod y systemau TG yn anghydnaws ond rydym yn ymwybodol bod yr Heddlu yn y broses o symud tuag at Teams.

**Hyfforddiant**

Mae hyfforddiant yn parhau i gael ei ddarparu’n rhithiol ac fe nodir y ffigyrau isod. Yn ogystal, mae hyfforddiant Deddf Galluedd Meddyliol wedi ei ddarparu ar draws y gwasanaethau plant ac oedolion er mwyn hyrwyddo dull ‘sylfaenol’ i wella arfer ac wrth baratoi Trefniadau Diogelu Amddiffyn Rhyddid. Mae’r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol wedi gofyn am hyfforddiant wyneb yn wyneb sydd nawr yn y broses o gael ei drefnu.

| | | |
|---|---|---|
| 27/04/2021 | Diogelu Cyffredinol | 17 |
| E-Ddysgu | Diogelu Sylfaenol | 19 |
| E-Ddysgu | Caethwasiaeth Fodern | 16 |
| E-Ddysgu | Atal | 40 |
| E-Ddysgu | VAWDASV | 29 |
| | | |

| **Mai** | | |
|---|---|---|
| E-Ddysgu | Diogelu Sylfaenol | 12 |
| E-Ddysgu | Caethwasiaeth Fodern | 35 |
| E-ddysgu | Atal | 77 |
| E-Ddysgu | VAWDASV | 28 |
| | | |
| **Mehefin** | | |
| 28/06/2021 | Gofal mwy Diogel a Honiadau | 14 |
| 07/06/2021 | Diogelu Cyffredinol | 12 |
| E-Ddysgu | Diogelu Sylfaenol | 12 |
| E-Ddysgu | Caethwasiaeth Fodern | 63 |
| E-Ddysgu | Atal | 90 |
| E-Ddysgu | VAWDASV | 57 |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 18fed Ionawr 2022 |
| **Pwnc:** | Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Adroddiad blynyddol i'r pwyllgor craffu |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Gwilym Owen Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Y Cynghorydd Alun Mummery |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Mae swyddog cefnogi partneriaethau'r ddwy sir wedi'i leoli o fewn Awdurdod Lleol Gwynedd, Dylan Williams (ALl Ynys Môn) yw cadeirydd y Bartneriaeth. |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Daron Owens – Swyddog Phrosiectau a Gweithredu<br>DaronMargedOwens@gwynedd.llyw.cymru<br>AR RAN<br>Catherine E Roberts - Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gwynedd a Môn<br>01286 679047<br>Catherineeirlysroberts@gwynedd.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl aelodau |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Nodi cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol, a nodi a yw'r Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor hwn bob blwyddyn er mwyn cyflwyno trosolwg o weithgareddau. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiadau yn unol ag adrannau 19 a 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006.<br>**Dyletswydd y pwyllgor yw craffu gwaith y Bartneriaeth, yn hytrach na gwaith yr aelodau (cyrff) unigol.** |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal |

- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. I ba raddau mae'r Pwyllgor yn cytuno â blaenoriaethau'r Bartneriaeth, sy'n seiliedig ar broses asesu anghenion lleol, ac a oes materion eraill sydd angen eu blaenoriaethu?
2. Ym mha ffordd mae'r bartneriaeth statudol yn ychwanegu gwerth ac yn gweithio mewn ffordd effeithiol ac effeithlon yn unol â disgwyliadau'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998?
3. I ba raddau mae'r cynllun gweithredu yn ddigon gwydn i ymdrin ag agweddau o'r meysydd blaenoriaeth er budd cymunedau Môn?
4. Sut mae'r argyfwng Covid-19 yn mynd i ddylanwadu ar y bartneriaeth a'r ffrydiau gwaith, ac i ba raddau mae angen addasu blaenoriaethau a rhaglen waith y Bartneriaeth yn sgil y pandemig?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**CEFNDIR -**

1) Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998, a'r diwygiadau dilynol yn sgîl deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2002 a 2006, i weithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub i roi sylw i'r agenda diogelwch cymunedol yn lleol. Dyma'r prif asiantaethau sy'n ffurfio'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

2) Fel aelod statudol o'r Bartneriaeth, mae'n bwysig bod yr ALl yn cael ei gynrychioli'n briodol. Cyflawnir hyn drwy bresenoldeb yr aelod lleol presennol gyda phortffolio Diogelwch Cymunedol, sef Alun Mummery, a'r prif swyddog gyda chyfrifoldeb am y gwaith, sef Dylan Williams.

**3) Yn wreiddiol, galwyd partneriaethau diogelwch cymunedol yn bartneriaethau trosedd ac anhrefn, ac er bod yr enw wedi'i newid, nid yw'r cyfrifoldebau, maent yn parhau i fod -**

- Throsedd ac Anhrefn
- Camddefnyddio Sylweddau
- Lleihau Aildroseddu
- Cyflwyno asesiad strategol i adnabod blaenoriaethau (gwaith sydd bellach yn cael ei wneud yn rhanbarthol)

- Rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â'r blaenoriaethau hyn (mae cynllun bellach yn bodoli ar sail rhanbarthol a lleol)

4) Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol bellach wedi bodoli ers 22 mlynedd, yn ddiweddarach, fel partneriaeth dwy Sir. Mae'r newidiadau y mae'r bartneriaeth wedi'u hwynebu dros y blynyddoedd yn niferus. Yn wir, gellir dweud nad yw'r dirwedd heddiw yn edrych dim byd tebyg i'r hyn a fodolai ym 1998, pan ddaeth PDC yn ofyniad statudol.

5) Yr hyn sydd heb newid fodd bynnag yw ymrwymiad ac ymgysylltiad yr holl bartneriaid. Mae presenoldeb da bob amser mewn cyfarfodydd chwarterol, ac nid yw un cyfarfod wedi'i ganslo mewn dros 20 mlynedd - hyd at gyfyngiadau diweddar Covid 19.

6) Mae partneriaid ac Aelodau lleol sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn cyfrannu'n gadarnhaol, ac mae data chwarterol ar ffigurau troseddau a diweddariad ar ein cynlluniau ar gael ym mhob cyfarfod.

7) Mae pob aelod cyfrifol o'r bartneriaeth yn cyfrannu'n ariannol i gael dadansoddwyr partneriaeth, fel y gellir darparu data rheolaidd er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.

8) Mae gweithio rhwng partneriaid yn sylfaenol i ddiogelwch cymunedol. Y prif reswm dros gyflwyno PDC yn ôl ym 1998, oedd sicrhau bod trosedd ac anhrefn yn cael ei ystyried yn 'broblem pawb' ac nid tir yr Heddlu yn unig. Ni fu'r cydweithio rhwng partneriaid allweddol, yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector erioed mor gryf. Mae yna enghreifftiau diddiwedd o'r cydweithio rhwng sefydliadau, sydd bellach yn digwydd yn ddyddiol fel mater o drefn. Fodd bynnag, nid oes lle i hunanfoddhad, ac mae'r cynlluniau presennol yn dal i gynnwys bwriadau i symud i fwy fyth o weithio ar y cyd.

9) Ers datblygu'r bartneriaeth statudol hon o dan Ddeddf 1998, mae cydweithio rhwng y gwahanol sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector wedi newid yn ddramatig. Tydi'r ffaith bod rhai o'r partneriaid cyfrifol wedi'u datganoli a rhai ddim, bod rhai meysydd gwaith yn cael eu harwain gan Lywodraeth Cymru, ac eraill gan Lywodraeth y DU, ddim wedi rhwystro cynnydd gweithio ar y cyd, sydd fel y soniwyd eisoes, bellach wedi'i ymgorffori yn ymarfer gweithio bob dydd.

10) Rhestrir rhai o'r prif newidiadau mae'r bartneriaeth wedi, ac yn parhau i'w hwynebu isod:
    a. Colli grantiau lleol - mae'r holl grantiau a fydda cynt yn dod i'r bartneriaeth, naill ai wedi dod i ben, neu wedi symud i fod yn grant ranbarthol ac yn cael ei rheoli ar sail Gogledd Cymru. Fodd bynnag, trwy sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan yn y strwythur rhanbarthol, mae arian yn dal i gael ei sicrhau yn lleol, gan gynnwys cyllid ychwanegol yn y 18 mis diwethaf ar gyfer cam-drin domestig / trais rhywiol a chamddefnyddio sylweddau, yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
    b. Colli cydlynwyr lleol - collwyd rhai swyddi oherwydd bod cyllid wedi'i dynnu'n ôl, daeth eraill yn adnodd rhanbarthol. Fodd bynnag, trwy gynnal aelodaeth

agos a phwrpasol o'r grwpiau rhanbarthol, rydym yn hyderus bod anghenion lleol wedi'u hymgorffori ym mhob cynllun a gweithgaredd rhanbarthol.

c. Y prif heriau yr ydym i gyd yn eu hwynebu wrth gwrs, yw wyneb newidiol troseddu yn ein cymunedau heddiw. **Er bod Gwynedd ac Ynys Môn yn parhau i fod ymhlith y lleoedd mwyaf diogel i fyw**, rydym yn wynebu'r un materion â phob ardal arall yn y DU. Mae troseddau heddiw yn bellgyrhaeddol a chymhleth, gyda'r defnydd o dechnoleg yn galluogi lefel o droseddau ecsbloetiol ellir ddadlau, na welwyd o'r blaen. Mae gangiau troseddau cyfundrefnol yn bodoli ledled y DU, y rhan fwyaf yn ymwneud â throseddau cysylltiedig â chyffuriau, ac mae'r gangiau hyn a elwir yn gangiau llinellau sirol (County Lines) wedi bod yn destun llawer o weithgaredd ymatebol yng Ngogledd Cymru.

d. Yn ystod 2019-20, ddaru heddlu Gogledd Cymru arwain ar waith paratoi asesiad anghenion rhanbarthol ar linellau sirol, gan ddod â sefydliadau ledled y rhanbarth ynghyd (mynychodd bron i 200 o bobl un cyfarfod) o hynny, datblygwyd cynllun ymateb rhanbarthol, sydd bellach yn esblygu i weithgaredd lleol. Yn yr un cyfnod **(ac yn parhau)** mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cynnal nifer o weithrediadau gorfodi llinellau sirol, sydd wedi cael effaith fawr ar weithgaredd y 'gangiau troseddol' yn yr ardal.

**BLAENORIAETHAU/DOGFENNAU'R BARTNERIAETH AR GYFER CRAFFU -**

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n unol â chynllun blynyddol. Atodir adroddiadau 2020-21 ac 2021-22.

Mae saith blaenoriaeth yn denu sylw'r Bartneriaeth. Mae'r blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar asesiad strategol rhanbarthol, cynllun Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a chynllun rhanbarthol y Bwrdd Cymunedau Diogel. Y blaenoriaethau yw -

- Lleihau troseddau a chanddynt ddioddefwyr (troseddau meddiangar yn unig)
- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag bod yn ddioddefwyr trosedd
- Codi hyder i adrodd am ddigwyddiadau o gam-drin domestig
- Codi hyder i adrodd am gam-drin rhywiol
- Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal
- Lleihau Aildroseddu

**TROSOLWG O LEFELAU TROSEDDU DROS Y CYFNOD ADRODD**

**Cefndir:**

1) Wrth fesur lefelau trosedd, mae'n bwysig bod gennym sail ar gyfer cofnodi , sy'n caniatáu cymhariaeth â phersbectif. Mae'r Swyddfa Gartref (SG) yn monitro lefelau troseddau ar draws holl heddluoedd y DU. Un o'r paramedrau maen nhw'n eu defnyddio i gynnal trosolwg yw cynghrair gymhariaeth o fath, sef *grwpiau mwyaf tebyg* (GMT). Mae'r SG yn llunio grwpiau o Siroedd, lle mae'r ddemograffeg mor debyg, y byddai disgwyl i lefelau troseddu fod yn debyg iawn hefyd.

2) Mae'r ddwy Sir yn amrywio o gwmpas y cyfartaledd ar gyfer ein GMT - gydag amrywiadau'n cael eu dadansoddi ymhellach, os a phryd mae angen.

3) Mae'r Heddlu'n edrych ar ffigurau trosedd yn gyson, ac yn adolygu pob newid yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae unrhyw newidiadau sylweddol yn destun dadansoddiad pellach. Yna bydd meysydd problemus yn cael eu hadolygu, gyda chynlluniau Plismona ar waith i fynd i'r afael arnynt. Mae dulliau plismona lleol yn cynnwys gosod adnoddau bob dydd i fynd i'r afael â materion wrth iddynt ddod i'r amlwg.

4) Mae'r Bartneriaeth yn derbyn data ar lefelau troseddu bob chwarter, a bydd y dulliau 'meddal' neu dymor hir o fynd i'r afael â thueddiadau trosedd yn sail i'r cynllun partneriaeth. (Yn ystod y cyfnod cloi, derbyniwyd data ar sail misol). Y data a ddefnyddiwn yn gyffredinol yw data cymhariaeth rhwng y cyfnod yn y flwyddyn gyfredol, a'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

5) Mae gan y Bartneriaeth ddyletswydd statudol i ymateb i asesiad strategol o dueddiadau trosedd, a pharatoi cynllun yn seiliedig ar yr asesiad hwn. Ar hyn o bryd, cynhelir yr asesiad ar sail ranbarthol. Derbyniwyd yr Asesiad diweddaraf ym mis Mawrth 2021, rydym yn disgwyl diweddariad yn gynnar yn 2022.

**DATA TROSEDDU**

1) **Isod mae'r data troseddu diweddaraf Ynys Môn ar gyfer Ionawr 2022 gan y Dadansoddwr Partneriaeth o fewn Heddlu Gogledd Cymru. Mae hyn yn amlinellu'r ffigyrau ar gyfer y flwyddyn hyd yma, o gymharu â blynyddoedd blaenorol a hefyd y darlun ar draws Gogledd Cymru.**

| Ynys Mon - Crime & Incident Data | Fiscal Year | | | % Change (YTD) | North Wales % Change (YTD) |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 (LYTD) | 2020/21 (YTD) | 2021/22 (YTD) | | |
| All Victim Based Crime | 3,208 | 3,005 | 3,602 | 19.9% | 20.4% |
| Violence with injury | 457 | 380 | 418 | 10.0% | 17.2% |
| Violence without injury | 710 | 625 | 706 | 13.0% | 17.3% |
| Stalking & Harassment | 544 | 667 | 861 | 29.1% | 23.5% |
| Sexual offences | 150 | 153 | 169 | 10.5% | 19.1% |
| All Acquisitive Crime | 741 | 478 | 526 | 10.0% | 11.9% |
| Burglary Residential | 99 | 80 | 58 | -27.5% | -1.2% |
| Burglary - Business and Community | 71 | 32 | 32 | 0.0% | 9.9% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Robbery** | 3 | 1 | 8 | **700.0%** | *38.3%* |
| **Vehicle Crime** | 66 | 52 | 34 | **-34.6%** | *19.5%* |
| **Theft and Handling** | 502 | 313 | 394 | **25.9%** | *13.2%* |
| **Criminal Damage & Arson** | 539 | 407 | 435 | **6.9%** | *12.8%* |
| **Domestic Crime** | 669 | 727 | 883 | **21.5%** | *19.3%* |
| **Domestic Incidents (non-crime)** | - | 258 | 278 | **7.8%** | *4.7%* |
| **Hate Crime** | 38 | 57 | 93 | **63.2%** | *25.5%* |
| **Anti-Social Behaviour** | 1,387 | 1,218 | 1,255 | **3.0%** | *-7.1%* |

2) Yn gynnar yn y flwyddyn diwethaf, oherwydd y sefyllfa cloi, gostyngodd y niferoedd o droseddau, o bob math, a adroddwyd i'r Heddlu. Roedd hyn wrth gwrs, i'w weld ledled y Wlad. Roedd y gostyngiad mwyaf sylweddol mewn troseddau meddiangar o bob math, a throseddau treisgar. Fel mae'r tabl yn dangos, yn dilyn codi cyfyngiadau Covid, mae troseddau yn eu cyfanrwydd wedi codi'n ôl yn araf i niferoedd cyn y cloi mawr, ond nid pob un.

3) Dau faes lle gwelir niferoedd cynyddol yw stelcio ac aflonyddu, a throseddau casineb. Mae dadansoddiad pellach wedi dangos bod y cynnydd mewn stelcio ac aflonyddu yn bennaf oherwydd fod troseddau rheoli gorfodol, nawr yn cael eu cofnodi yn y categori aflonyddu a hefyd y cynnydd mewn adroddiadau o aflonyddu yn digwydd ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy apiau negeseuon. Yn yr un modd, mae'r cynnydd mewn troseddau casineb wedi bod yn gysylltiedig i raddau helaeth â thensiynau rhwng unigolion sy'n arwain at gam-drin geiriol, sydd yn anffodus yn cael ei weld ledled y Wlad wrth fod symudiadau pobl yn ystod cyfyngiadau Covid yn gallu achosi ffrithiant. Mae'r Heddlu'n ymateb i bob adroddiad o droseddau casineb ac ymchwilir iddynt yn llawn. Mae'r diffiniad cenedlaethol o droseddau casineb, fel y defnyddiwyd gan yr Heddlu, yn cynnwys gwahaniaethu ar hil unigolyn gan gynnwys gwledydd y DU, h.y. Cymraeg/Saesneg, felly dyma sut y recordiwyd digwyddiadau o'r fath.

4) Mae'r holl achosion ailadroddus o drais domestig yn cael eu cofnodi drwy MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol), i sicrhau bod camau amlasiantaethol priodol yn cael eu cymryd. Gwelodd Ynys Môn dwf mewn niferoedd achosion dros yr haf 2020, sy'n cyd-fynd â'r adeg pan laciwyd y cyfyngiadau COVID-19. Yna, bu i nifer yr achosion ostwng yn eithaf sydyn yn y ym misoedd yr hydref a'r gaeaf.

5) Mae Trais Domestig yn parhau yn flaenoriaeth leol i Fôn a Gwynedd, gyda ffocws cynyddol ar ddiogelu, craffu ar safonau ymchwilio, lleihau llinellau amser ymchwiliadau ar y cyd â Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a chael gwell deilliannau i ddioddefwyr. Mae Trais Domestig yn cyfrif am oddeutu 20% o gyfanswm troseddau yn ardal y Gorllewin.

6) Mae Adran Onyx Heddlu Gogledd Cymru yn ymdrin â diogelu dioddefwyr

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE), ac mae gan bob un ohonynt gynlluniau partneriaeth diogelu. Ni fu iddynt weld unrhyw newidiadau yn nifer y dioddefwyr CSE yn ystod chwarter 1 2021/22 na thrwy gyfnod y pandemig COVID-19, gyda'r niferoedd yn parhau i fod yn bur sefydlog.

7) Bu i ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) yn Ynys Môn gynyddu yn hanner cyntaf 2021/22, yn unol â'r cynnydd a welwyd ar draws ardal y llu heddlu. Yn genedlaethol, gwelwyd cynnydd amlwg mewn ASB cysylltiedig â phobl ifanc ers diwedd y cyfnod clo ac mae cynnydd tebyg wedi'i nodi yn y grwpiau tasg amlasiantaethol ASB misol ledled Gogledd Cymru.

8) Yn ystod y flwyddyn hon, tynnwyd sylw at droseddau twyll a sgamiau. Yn genedlaethol, gwelwyd cynnydd sylweddol yn y mathau hyn o droseddau, ond mae hwn yn parhau'n faes sy'n cael ei dan-adrodd yn fawr, a hynny am nifer o resymau. Derbyniodd y Bartneriaeth gyflwyniad gan yr Heddlu, er mwyn egluro'r broses adrodd a rôl Action Fraud. Hefyd, penderfynwyd y byddai sesiynau hyfforddi ar gael i staff sy'n gweithio â phobl fregus, er mwyn cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth yn ehangach.

**GWAITH WEDI'I GWBLHAU YN YSTOD 2020-21**

1) Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019-20, cynhaliodd y bartneriaeth weithdy, i ddechrau ar y gwaith o gynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cynhaliwyd hwn ym mis Chwefror, a dyma oedd y cyfarfod ffisegol diwethaf rhwng partneriaid yn lleol, cyn i'r cyfnod clo ddechrau ym mis Mawrth 2020. Er bod llawer wedi newid o ran arferion gweithio yn ystod mis Mawrth, ac ymlaen i fis Ebrill, llwyddom i lunio cynllun gweithredu allan o weithgarwch y gweithdy, a hynny erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

2) Canslodd y bartneriaeth y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer mis Ebrill, ac yn hytrach, cylchredwyd LOG - gan gynnwys y ffigyrau trosedd ar gyfer y cyfnod, a'r holl bapurau a materion eraill oedd angen sylw gan yr aelodau. Ailgychwynnodd cyfarfodydd y bartneriaeth ym mis Gorffennaf, gan ddefnyddio dulliau rhithiol.

3) Mae cynllun 2020-21, sydd wedi'i atodi, yn crynhoi mwyafrif y gweithgarwch ychwanegol yr oedd y bartneriaeth yn dymuno ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Cwblhawyd mwyafrif y gweithgarwch, ac fe adroddwyd ar hyn yn chwarterol i'r PDC, fel bod modd dod i gytundeb ar unrhyw weithgarwch adfer, os oedd angen. Hefyd, roedd ffigyrau trosedd yn cael eu rhannu yn chwarterol, fel bod modd trafod unrhyw weithgarwch ychwanegol.

4) Ni fydd yn eich synnu bod rhai o'r gweithgareddau yn y cynllun wedi cael eu hoedi yn sgil y sefyllfa COVID-19. Bu i hyn olygu bod 5 allan o 28 cam gweithredu heb ei gwblhau ar ddiwedd y flwyddyn yn sgil blaenoriaethau'r pandemig.

5) Yn gynnar iawn yn ystod y cyfnod clo, gwelsom, fel y disgwyl, leihad yn y cyfraddau trosedd cyffredinol ar draws y Siroedd, erbyn dechrau mis Mehefin - roedd y cyfraddau trosedd cyffredinol o'u cymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol, wedi gostwng - gostyngiad o 24.6% yng Ngwynedd a 24.8% ym Môn. Roedd y gostyngiad ar draws y mathau o droseddau yn amrywio, a gwelwyd y gostyngiadau mwyaf mewn troseddau meddiangar a throseddau treisgar.

6) Ers hynny, mae cyfraddau trosedd wedi bod yn cropian yn araf yn ôl tuag at y lefelau disgwyliedig. Mae Trais Domestig, oedd yn fater y bu i ni gadw trosolwg agos arno yn ystod y cyfnod clo, am resymau amlwg - eto yn nesáu at niferoedd mwy disgwyliedig o ran adrodd. Yn ffodus, fel y nodwyd yn flaenorol, rydym wedi medru cymryd mantais o'r arian ychwanegol o Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi mwy o ddarpariaeth yn ei lle ar gyfer Trais Domestig ac anghenion trais rhywiol.

7) Yn ystod y cyfnod hwn, bu i ni barhau â'r cyfarfodydd rhithiol a rhannu gwybodaeth yn gyson, er mwyn cadw'r cynllun ar y trywydd iawn cyn gymaint â phosib. Hefyd, bu i ni ddysgu o'r ymateb i'r cyfnod clo, lle y gwelwyd, yn ddi-os, arferion da ac arloesedd.

8) Yn anffodus, drwy gydol y cyfnod adrodd hwn, roedd gan y bartneriaeth Adolygiadau Lladdiad Domestig (DHR) ar y gweill.

9) Cafodd y cynllun Prevent (dyletswydd i roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth), ei ddiweddaru ar ôl derbyn y proffil lleol mwyaf diweddar gan yr Heddlu ym mis Rhagfyr. Mae tair rhan i'r cynllun, sy'n argymhellion i ymdrin â bygythiadau presennol, cyflawni elfennau statudol a thrafodaethol Prevent, a phartneriaeth amlasiantaethol.

10) Cafodd Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol Gogledd Cymru ei lansio ym mis Mawrth 2020. Ers hynny, mae'r PDC wedi cefnogi cyflawniad y strategaeth yng Ngwynedd drwy fynychu'r cyfarfodydd rhanbarthol a gwybod y diweddaraf am flaenoriaethau a chamau perthnasol wrth iddynt godi.

11) Nid oes amheuaeth bod sefyllfa ddiweddar Covid 19 wedi, ac yn parhau i fod yn gyfnod heriol i'r holl bartneriaid. Isod mae enghreifftiau o sut bu ymateb i rai o'r heriau hyn:

a) Yn anffodus, yng Ngwynedd, roedd angen cynnal adolygiad Dynladdiad Domestig (sy'n gyfrifoldeb PDC). Rhoddodd y Swyddfa Gartref ryddid i bartneriaethau 'ddal' ar y broses yn ystod y cyfnod cloi. Fodd bynnag, roedd partneriaid yn awyddus i wneud cynnydd, a chan ddefnyddio cyfarfodydd rhithwir yn lleol a gyda sefydliadau o ddwy Sir arall ledled y DU, rydym wedi cadw at yr amserlen y byddem wedi'i wneud, serch y rhwystrau presennol.

b) Yn gynnar yn y cyfnod Cloi, cydnabuwyd bod angen bod yn wyliadwrus o ran Cam-drin Ddomestig (DA). Mae dioddefwyr risg uchel CD yn cael eu trafod mewn cyfarfod amlasiantaethol bob mis, fel arfer safonol. Cytunodd partneriaid y byddai cyfarfodydd rhithwir wythnosol hefyd yn cael eu cynnal, fel y gellir delio â ffactorau risg yn gyflym. Mae'r cyfarfodydd hyn yn parhau.

c) Daeth diwallu anghenion ein dinasyddion digartref yn flaenoriaeth yn gynnar yn y cyfnod cloi, nid yn unig yn darparu tai i bob un, ond hefyd yn diwallu anghenion eraill y gallent eu cyflwyno. Cynyddodd ein gwasanaethau camddefnyddio sylweddau'r ddarpariaeth 'allgymorth' sydd ar gael, gan weithio ochr yn ochr â'r heddlu a gwasanaethau tai ar lawr gwlad, gan ymgysylltu â phob unigolyn. Roedd darparu ar gyfer yr anghenion hyn yn sicrhau eu bod yn parhau i ymgysylltu â gwasanaethau ac o ganlyniad yn cyfeirio ac yn ymgysylltu o fewn gwasanaethau triniaeth mwy strwythuredig. Darparwyd gwerth ychwanegol trwy ddarparu bwyd poeth ac eitemau sylfaenol, ffonau symudol lle nad oedd ganddynt fynediad at un, a ticedi teithio i'w galluogi i fynd i apwyntiadau a derbyn cefnogaeth bellach yn ôl yr angen.

d) Cynyddodd ein gwasanaethau tai a gofal cymdeithasol y nifer y cyfarfodydd (rhithwir) gyda phartneriaid yn y trydydd sector / camddefnyddio sylweddau / a'r gwasanaeth Prawf, er mwyn trafod unigolion yn y gymuned a oedd yn destun goruchwyliaeth Prawf. Mynd i'r afael ag anghenion a rheoli risg oedd y nod i raddau helaeth, ar adeg lle nad oedd cyswllt wyneb yn wyneb bob amser yn bosibl.

e) Hefyd, wrth i gyfarfodydd goruchwylio wyneb yn wyneb â chleientiaid yn y gymuned o fewn swyddfeydd ddod yn anodd i'r gwasanaeth prawf (fel gyda phob darparwr arall) yn ystod dyddiau cynnar cloi, mae'r Gwasanaeth Prawf a'r heddlu'n cryfhau eu harferion gweithio ar y cyd, mwy o ddefnydd o Safleoedd heddlu ac ymweliadau stopio drws ar y cyd, er mwyn sicrhau bod rheolaeth risg yn cael ei chynnal yn ystod y cyfnod.

**GWAITH WEDI'I GWBLHAU YN YSTOD 2021-22:**

1) Yn sgil y pandemig, ni fu modd i'r PDC baratoi ar gyfer y cynllun newydd drwy'r dull arferol o gynnal gweithdy. Penderfynwyd y byddai holiadur yn gosod y sylfaen ar gyfer sefydlu'r cynllun am eleni, a hynny drwy ofyn i bartneriaid am wybodaeth ynghylch unrhyw weithgareddau neu brosiectau oedd ar y gweill oedd yn cysylltu â'r blaenoriaethau yn yr asesiad strategol.

2) Mae cynllun 2021-22, sydd wedi'i atodi, yn crynhoi mwyafrif y gweithgarwch ychwanegol y dymunai'r bartneriaeth ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r gweithgarwch yn cael ei fonitro a'i adrodd yn chwarterol i'r PDC, fel bod modd dod i gytundeb ar unrhyw weithgarwch adfer, os oes angen. Yn dilyn trafodaethau, roedd y cynllun am eleni hefyd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol o ran y deilliannau a fwriadwyd ar gyfer pob prosiect.

3) Hefyd, rhannwyd ffigyrau trosedd bob chwarter drwy adroddiad perfformiad a baratowyd gan ddadansoddwr yr Heddlu, fel bod modd trafod unrhyw dueddiadau a gweithgarwch ychwanegol.

4) Ar ôl trafod, bu i'r bartneriaeth nodi'r angen i ddiweddaru'r data chwarterol a ddarparwyd gan y dadansoddwr er mwyn hysbysu'r cyfarfodydd yn well; roedd y diwyg newydd yn ei le erbyn y cyfarfod ym mis Ebrill. Roedd hyn yn cynnwys naratif ychwanegol i egluro unrhyw newidiadau i'r dull o gofnodi data neu effaith achosion hanesyddol ar y data.

5) Yn anffodus, yn ystod y flwyddyn hon, mae'r bartneriaeth bellach wrthi'n cynnal ychwaneg o Adolygiadau Lladdiad Domestig (DHR) yng Ngwynedd.

6) Ychwaneg o ddatblygiadau ar gyfer y flwyddyn ariannol hon:
   a) Mewn cyfarfodydd blaenorol, nododd y bartneriaeth yr angen i ddiweddaru grwpiau gweithredu lleol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan yr heddlu, ac erbyn hyn mae mwyafrif y grwpiau wedi'u sefydlu.
   b) Cafodd twyll ei nodi fel blaenoriaeth gan y bartneriaeth, a hynny o ran codi ymwybyddiaeth staff sy'n gweithio ag unigolion bregus. O ganlyniad, mae sesiynau hyfforddi gan yr Heddlu wedi cael eu trefnu ar gyfer mis Ionawr.
   c) Yn dilyn y camau gweithredu a nodwyd yn Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru 2021-24 o ran gwella mynediad i wybodaeth a help ar gyfer VAWDASV (Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a thrais

Rhywiol), mae'r dudalen Diogelwch Cymunedol ar wefan y Cyngor yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth ynghylch yr adnoddau cefnogi lleol a chenedlaethol ar gyfer pob math o ddioddefwr. Mae hyn yn cynnwys dolen i Linell Gymorth Byw Heb Ofn, sydd hefyd yn cael ei hyrwyddo yn rheolaidd ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol a thudalennau staff y Cyngor.

d) Mae'r PDC wedi cael ei hysbysu ynghylch dyletswyddau newydd megis Protect a Thrais Difrifol ac mae wrthi'n paratoi ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys mynychu gweminarau cenedlaethol a rhannu gwybodaeth. Rhoddodd yr Heddlu gyflwyniad i aelodau am y Ddyletswydd Trais Difrifol yn gynharach yn y flwyddyn, ac mae cyflwyniad pellach o ran yr Hwb Deallusrwydd newydd, fydd yn cadw data gogledd Cymru ac sydd wrthi'n cael ei ddatblygu, wedi'i drefnu ar gyfer mis Ionawr.

e) Mae'r PDC wedi adlewyrchu ar yr hyfforddiant Prevent presennol sydd ar gael, ac mae'n aros i weld beth sy'n bosib gyda'r pecyn newydd gan y Swyddfa Gartref. Mae'r llwyfan hyfforddi newydd wrthi'n cael ei brofi cyn iddo gael ei gyflwyno'n raddol.

**GWAITH AR Y GWEILL:**

1) Parhau i weithredu prosiectau lleol sydd wedi'u hadnabod yn y cynllun ar gyfer Ch3 - drwy'r broses fonitro.

2) Ymateb i'r Proffil Cymunedol y bu i ni ei dderbyn yn ddiweddar gan yr Heddlu. Mae hyn yn cynnwys datblygu grŵp SOC (Troseddau Cyfundrefnol a Difrifol) amlasiantaethol dan arweiniad yr Heddlu.

3) Rydym yn aros am ragor o wybodaeth am rowndiau ychwanegol o'r Cyllid Strydoedd Mwy Diogel gan y Swyddfa Gartref yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Pan mae hyn ar gael, bydd y Bartneriaeth yn barod i gefnogi unrhyw gynigion a wneir gan Ynys Môn, ac os bydd hyn yn lwyddiannus, gyda cyflawni'r prosiect.

4) Parhau i gefnogi gweithrediad y cynllun alcohol rhanbarthol yn y ddau Awdurdod.

5) Mae'r bartneriaeth yn ymwybodol y dylem, ar yr adeg briodol, fynd ati i asesu'r newidiadau yn ein cymunedau yn sgil y pandemig a'r ffordd mae sefydliadau wedi bod angen newid er mwyn bodloni angen y cymunedau. Ar hyn o bryd, mae newidiadau a fflwcs yn arferol, felly efallai bod angen i'r gwaith hwn fynd rhagddo nawr, ond mae'n debygol o gymryd cyfnod hwy. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau yn parhau i fod yn ymatebol i newidiadau.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |

| |
|---|
| Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau. |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Nid yw'r adroddiad yn nodi unrhyw oblygiadau ariannol penodol i'r Awdurdod Lleol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| 1. Cynllun 20-21<br>2. Cynllun 21-22 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

## Partneriaeth Diogelwch Cymunedol - Gwynedd a Môn

### Beth ydyw?

Grŵp o sefydliadau sy'n cydweithio i ystyried sut y gallwn fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn yw'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Ymgorfforir y gofyn i gael partneriaeth o'r fath yn ei lle ar lefel leol yn y gyfraith, o fewn Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae gan nifer o sefydliadau ran i'w chwarae o fewn y bartneriaeth, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol, yr Heddlu, gwasanaethau Prawf, y gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bwrdd Iechyd.

Mae gennym gyfrifoldebau dan Ddeddf 1998 dros nifer o feysydd, gan gynnwys - lleihau trosedd ac anhrefn, lleihau aildroseddu, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ogystal, mae dyletswydd arnom i gomisiynu adolygiadau Lladdiad Domestig mewn rhai amgylchiadau penodol. Hefyd, mae dyletswydd arnom i baratoi asesiad blynyddol o drosedd ac anhrefn, er mwyn ein harwain o ran yr hyn sydd angen ei flaenoriaethu.



### Beth mae'n ei wneud?

Ers iddi gael ei sefydlu dros 20 mlynedd yn ôl, mae'r bartneriaeth wedi wynebu sawl newid. Yn y lle cyntaf, cefnogwyd y gwaith drwy nifer o grantiau lleol a chydlynwyr ymroddedig. Fodd bynnag, nid oes gennym grantiau lleol heddiw ac mae adnoddau pwrpasol wedi lleihau'n aruthrol. Felly, rydym wedi ymaddasu i'r tirlun newydd sy'n golygu gweithio i raddau helaeth gyda phartneriaid ar draws gogledd Cymru, i sicrhau cyfleoedd ac adnoddau i weithredu newid yn lleol.

Ers 1998, mae llawer o'r gwaith wedi bod yn ymwneud â phrif ffrydio diogelwch cymunedol i waith bob dydd yr holl bartneriaid. Mae hyn wedi arwain at weld newidiadau helaeth gan fod gwasanaethau bellach yn cynllunio ac ymgorffori anghenion pobl bregus a dioddefwyr yn eu gwaith bob dydd. Mae hyfforddiant ar nifer o faterion yn ymwneud â throsedd ac anhrefn yn cael ei gymhwyso fel mater o drefn, ac mae asiantaethau yn cydweithio bob dydd.

Heddiw, rydym yn cynnal datblygiadau'r 20 mlynedd diwethaf, sydd wedi gweld lleihad mewn rhai mathau o droseddau, ond hefyd yn cynnal

ymwybyddiaeth o droseddau newydd sydd angen sylw arbenigol. Ar ôl sefydlu cysylltiadau gweithio a rhwydweithiau ar draws rhanbarth gogledd Cymru, rydym mewn sefyllfa well i ymateb i'r heriau newydd yma.

Yn lleol, rydym yn dal i gynnal ein grwpiau gweithio ar y cyd ac yn chwilio'n gyson am ffyrdd i wella sut ydym yn cydweithio i fynd i'r afael â'n meysydd cyfrifoldeb. Isod, byddwn yn dangos pa strwythurau sydd gennym yn eu lle i symud ein gwaith ymlaen a hefyd pa feysydd penodol fydd yn cael ein sylw dros y 12 mis nesaf.

## Strwythurau diogelwch cymunedol -

Rhanbarth Gogledd Cymru -

Mae gennym sawl Bwrdd yng ngogledd Cymru sy'n dod â'r partneriaid angenrheidiol ynghyd i drafod amrywiol agweddau o Ddiogelwch Cymunedol, mae'r rhain yn cynnwys -

- Troseddau difrifol a chyfundrefnol
- Diogelu (pobl fregus) gan gynnwys radicaleiddio
- Caethwasiaeth fodern
- Cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Camddefnyddio sylweddau (cyffuriau ac alcohol)
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol
- Rheoli troseddwyr

Nid yw hon yn rhestr gyflawn ond mae'n dangos faint o waith a wneir i ddatblygu cynlluniau strategol, i gyfarwyddo ac, o bryd i'w gilydd, i gomisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pob sir yng ngogledd Cymru. Adolygir y Byrddau'n gyson er mwyn sicrhau effeithiolrwydd ac osgoi dyblygu ymdrechion. Cynhelir adolygiad helaeth dros y misoedd nesaf i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd gennym drwy leihau nifer y Byrddau a chyfarfodydd.

## Gwynedd ac Ynys Môn -

Ceir nifer o grwpiau lleol ar draws Gwynedd a Môn sy'n rhoi'r gweledigaethau strategol hyn ar waith. Bydd partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd yn **goruchwylio'r** ffrydiau gwaith hyn yn lleol, ond bydd hefyd yn edrych yn fanwl ar sut a lle mae angen gwella anghenion arferion gweithredol.

Dros y 12 mis nesaf, byddwn yn edrych ar y meysydd gwaith a ganlyn -

- Ein rhaglenni hyfforddi - i sicrhau bod gennym weithlu gwybodus a galluog
- Ein rhaglen codi ymwybyddiaeth - deall y bylchau a'r anghenion
- Sicrhau ein bod yn datblygu ein arferion gweithio er mwyn diwallu galwadau newydd, megis Llinellau Cyffuriau (gangiau cyffuriau cyfundrefnol)
- Deall beth mae'r asesiad strategol blynyddol a phroffiliau/dadansoddiadau eraill a gwblhawyd yn dweud wrthym o ran yr hyn sydd angen i ni ei wneud
- Ystyried y cysylltiadau a'r arferion gweithio lleol, a gwella cyfathrebu a strwythurau lle bydd angen
- Bod yn rhan o adolygiad rhanbarthol a chenedlaethol o lywodraethu a strwythurau ar gyfer Diogelwch Cymunedol
- Peilota prosiectau newydd a monitro'r deilliannau

Yr asesiad strategol -

Mae'r asesiad sydd newydd ei gwblhau ar gyfer Gogledd Cymru yn dweud wrthym bod angen blaenoriaethu'r meysydd isod. Gan fod yr asesiad yn seiliedig ar lefel y risg a gallu gwasanaethau i ymateb, nid yw pob math o drosedd yn flaenoriaeth ar hyn o bryd. Deallir rhai mathau o drosedd yn dda ac mae ymateb y sefydliadau angenrheidiol yn briodol ac wedi'i hen sefydlu. Nid yw hyn yn golygu nad ydym yn ymdrin a g unrhyw fater a gyfyd, ond gall olygu nad oes angen i ni roi sylw penodol i'r meysydd hyn fel partneriaeth.

- Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Camddefnyddio Sylweddau a'r holl droseddau sydd ynghlwm â hynny, megis Llinellau Cyffuriau a cham-fanteisio
- Dioddefwyr sy'n fregus
- Lleihau aildroseddu
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Troseddau Meddiangar Difrifol (SAC) gan gynnwys troseddau cyfundrefnol



## Cynllun Gwaith ar gyfer y 12 mis nesaf -

| EIN RHAGLEN HYFFORDDI | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Beth sydd angen ei wneud eleni | 1 | • Mae Awdurdodau Lleol Ynys Môn a Gwynedd yn datblygu gwybodaeth newydd a phriodol yng nghyswllt materion diogelu ar gyfer holl staff yr Awdurdod | • Mae gan y ddau ALl wybodaeth codi ymwybyddiaeth mewn perthynas â dyletswyddau diogelu oedolion a phlant, a phecynnau dysgu ychwanegol mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern / Atal / cam-drin domestig a rhywiol | **G** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2 | • Mae angen i'r ddau Awdurdod Lleol, y Gwasanaeth Tân a'r Bwrdd Iechyd ddechrau gweithredu lefel Gofyn a Gweithredu y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Gamdriniaeth Domestig, ynghyd â pharhau â hyfforddiant ymwybyddiaeth lefel 1 | • Mae Gwynedd wedi datblygu a threialu pecyn hyfforddi rhithiol pwrpasol ar gyfer Gofyn a Gweithredu. Mae Ynys Môn yn y broses o ymgymryd â'r un peth. Yn absenoldeb gallu ymgymryd â'r pecyn hyfforddi wyneb yn wyneb statudol, mae hyn yn galluogi cyflwyno'r hyfforddiant yn y ddau awdurdod lleol. Mae'r Gwasanaeth Tân a'r Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn wrth gyflawni eu fframwaith hyfforddi VAWDASV. | **G** |
| | 3 | • Mae angen i bartneriaid adolygu eu hyfforddiant PREVENT (radicaleiddio) i sicrhau bod y staff perthnasol yn derbyn y rhaglen ymwybyddiaeth gofynnol | • Cynllun teir-ran wedi'i ddiweddaru ar sail y CTLP. Bydd gwaith i ddatblygu'n ymhellach yn parhau yn gynllun blwyddyn nesaf. | **G** |
| EIN RHAGLEN CODI YMWYBDDIAETH | | | | |
| Beth sydd angen ei wneud eleni | 4 | • Bydd yr Heddlu yn darparu sesiynau ymwybyddiaeth ychwanegol ar gyfer Aelodau Lleol yng Ngwynedd, ynghylch materion Llinellau Cyffuriau | • Cynhaliwyd sesiynau yn rithiol ar y 13eg o Ionawr. | **G** |
| | 5 | • Mae'r Bartneriaeth wedi datblygu ymgyrch ymwybyddiaeth, yng nghyswllt Cocên, a fydd yn cael ei chyflwyno ledled Gogledd Cymru | • Gwybodaeth (posteri newydd) wedi ei rhaeadru ar draws y partneriaid yn rhanbarthol | **G** |
| | 6 | • O ganlyniad i'r datblygiad hwn, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn buddsoddi mewn ymgyrch ymwybyddiaeth benodol dros y misoedd nesa | • Llywodraeth Cymru yn oedi ar y datblygiad yma, posib tan y flwyddyn ariannol newydd –wrth fod yr argyfwng C19 wedi newid blaenoriaethau (yn y cyfamser mae ein posteri ymwybyddiaeth cocên lleol wedi'u | **C** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | rhannu â 'pub-watch' trwy drwyddedu)<br>• Ystyrir defnyddio'r posteri lleol ar faniau arddangos yn y dyfodol. | |
| SICRHAU EIN BOD YN DATBLYGU EIN ARFERION GWEITHIO ER MWYN DIWALLU GALWADAU NEWYDD | | | | |
| Beth sydd angen ei wneud eleni | 7 | • Bydd yr Heddlu nid yn unig yn parhau âr uned troseddau seiber, ond bydd yn datblygu ei chapasiti. Nod hyn fydd mynd i'r afael â'r broblem gynyddol o dwyll Seiber | • Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi buddsoddi'n ychwanegol yn y Tîm Seiberdroseddu gan benodi swyddog Amddiffyn ac Atal pwrpasol bellach ar waith ochr yn ochr â thri Ymchwilydd ymroddedig a Ditectif Sarjant | **G** |
| | 8 | • Bydd y bartneriaeth yn comisiynu data ychwanegol ynghylch natur a graddau troseddau seiber yn lleol - ac yn ymateb gyda gweithgareddau ychwanegol i godi ymwybyddiaeth os bydd angen | • Bydd y swyddog Atal / Amddiffyn yn darparu ffocws rhanbarthol ar amddiffyn pobl rhag dod yn ddioddefwyr Troseddau Seiber ac rhag atal pobl rhag dod yn droseddwyr Seiberdrosedd. (Ni ddangosodd y data unrhyw faterion penodol heblaw defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i aflonyddu - ymwybyddiaeth eisoes ar waith | **G** |
| | 9 | • Mae gwasanaethau plant Ynys Môn yn edrych ar y strwythurau yn ymwneud â darparu cyfweliadau i blant sydd wedi dychwelyd ar ôl bod ar goll. Y nod yw sicrhau bod materion diogelu yn cael eu hadnabod a'u trin – bydd unrhyw ddysgu yn cael ei rannu gyda Gwynedd | • Rydym yn derbyn y gallai'r perfformiad wrth adrodd ar RHI's gael ei wella'n sylweddol ac mae gennym gynlluniau ar waith i hyn ddigwydd. Mae'r newid yn y broses fel a ganlyn; RHI - *return home interviews*<br><br>1. Bydd yr atgyfeiriad coll o'r cartref ar achosion agored a newydd yn cael ei nodi gan Teulu Môn a'i anfon ymlaen at | **G** |

Tudalen 57

Tudalen 58

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | rheolwr gweithredu , Gweithwyr Cymdeithasol ac y gweithwyr perthnasoedd iach. Yn y gorffennol, nid yw'r gweithwyr perthnasoedd iach wedi cael gwybod eu bod ar goll o atgyfeiriadau cartref ar achosion agored.<br>2. Bydd y gweithwyr perthnasoedd iach yn gyfrifol am fonitro'r cynnydd ar bob cyfweliad dychwelyd adref.<br>3. Bydd pob pennod a chyfweliad coll yn cael eu mewngofnodi mewn cronfa ddata.<br>4. Bydd y ffurflen gyfweliad dychwelyd adref newydd ar WCCIS yn ei gwneud yn haws adrodd.<br><br>Mae'n anochel y bydd y diffiniad newydd o benodau coll (AWCP) yn arwain at gynnwys mwy o RHI. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagweld cynnydd sylweddol yn y galw gan ein bod eisoes yn defnyddio hyblygrwydd o fewn y diffiniad cyfredol.<br><br>Rydym yn symud i ffwrdd o ddefnyddio'r SERAF ac wedi mabwysiadu'r ffurflen camfanteisio ar blant i asesu risg. Bydd y ffurflen yn cael ei gwblhau ar ddiwedd asesiadau neu yn ystod cyfarfod strategaeth amlasiantaethol. Rydyn ni wedi cael MASM’s yn ddiweddar gyda thîm ONYX drwy ddefnydd Teams. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | 10 | • Mae buddsoddiad ychwanegol yn cael ei roi i ddarpariaeth Camddefnyddio Sylweddau haen 2 yn y ddwy sir - golyga hyn y gellir cynyddu cefnogaeth allgymorth (wedi'i thargedu) ar gyfer pobl sydd â materion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn y ddwy sir. Y nod yw cyrraedd pobl na fyddai'n chwilio am help gyda'u problemau fel arall | • Mae'r manylder i'w weld is lawr o dan ddatblygiadau camddefnyddio sylweddau | **G** |
| | 11 | • Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud yn barod wrth adnabod y materion lleol yn ymwneud â Llinellau Cyffuriau. Mae proffiliau ac asesiadau anghenion wedi'u paratoi a dros y misoedd nesaf bydd gweithdai'n cael eu cynnal i weld sut ellir ymgorffori'r rhain mewn cynlluniau gweithredu lleol. Y nod yw gweithio gyda'n gilydd er mwyn targedu ardaloedd lle mae'r mwyaf o angen, a lle gellir cael yr effaith fwyaf | • Mae gwaith yn mynd ymlaen i ailsefydlu'r grŵp hwn a bydd wedi'i gwblhau yn y flwyddyn ariannol newydd. Mae'r heddlu'n arwain ar raglen waith i sicrhau bod hyn yn digwydd. | **G** |
| YSTYRIED Y CYSYLLTIADAU A'R ARFERION GWEITHIO LLEOL, A GWELLA CYFATHREBU A STRWYTHURAU LLE BYDD ANGEN | | | | |
| Beth sydd angen ei wneud eleni | 12 | • Bydd Safonau Masnach a'r Heddlu yn lleol yn trafod ac yn gweithredu dulliau i rannu data gwybodaeth yn fwy effeithiol. Nod hyn fydd sicrhau erlyniadau effeithiol | • Oedi ar hyn, oherwydd fod adnoddau wedi symud i waith Covid | **C** |
| | 13 | • Bydd yr Awdurdodau Lleol a'r Heddlu yn adolygu gorchmynion diogelu mannau agored cyhoeddus presennol. Nod hyn fydd sicrhau bod yr hyn sydd yn ei le ar gyfer y dyfodol yn adlewyrchu'r angen gwirionedd ac yn ystyried yr adnoddau sydd ar gael | • Mae'r trafodaethau rhwng y ddau Gyngor a'r heddlu wedi cymryd lle, ac fe fydd y orchmynion yn dod i ben Hydref 2020(tair mlynedd drosodd) | **G** |
| | 14 | • Bydd adran dai Môn a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn edrych ar sut ellir gwella strwythurau, cydweithio ar adnabod | • Er na fu unrhyw ddilyniant gyda sefydlu grŵp ffurfiol rhwng Tai a Chyfiawnder | **G** |

Tudalen 59

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ac ymyrryd yn gynnar gyda phobl ifanc sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol mewn ardaloedd penodol. Y nod yw ymgysylltu â phobl ifanc yn gynnar a lleihau'r siawns i'r ymddygiad waethygu | Ieuenctid, bydd y grwpiau canlynol yn cynnwys pobl ifanc sydd angen ymyrraeth:<br>-Cyfarfod misol datrys problemau partneriaeth - rhwng y Cyngor a Heddlu Gogledd, mae gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn mynychu hwn<br>- Canolbwynt cymorth cynnar - dull amlasiantaethol o gefnogi teuluoedd, gan gynnwys pobl ifanc<br>-CAP Wythnosol - fforwm ASB rhwng Heddlu Gogledd Cymru a landlordiaid cymdeithasol Ynys Môn - mae'r cyfarfod hwn yn trafod pobl ifanc | |
| | 15 | • Bydd y grŵp VARM (Breguster a Rheoli Risg) yn cael ei gyflwyno yng Ngwynedd. Grŵp amlasiantaethol yw hwn sy'n ceisio dod o hyd i ddatrysiadau i faterion ar gyfer unigolion nad ydynt o fewn ffiniau diogelu arferol, ond sydd dal i fod angen gwasanaeth. Y nod yw dod o hyd i ddatrysiad a fydd yn gwella'r sefyllfa i'r unigolyn a lleihau'r angen am ymyrraeth i'r gwasanaethau | • Mae gwaith yn mynd ymlaen i ailsefydlu'r grŵp i ymgymryd â gwaith a arferai fod yn grwpiau VARM, a bydd wedi'i gwblhau yn y flwyddyn ariannol newydd. Mae'r heddlu'n arwain ar raglen waith i sicrhau fod hyn yn digwydd. | G |
| | 16 | • Yn rhanbarthol, rydym yn gweithio ar y cyd ar adolygiad o'n strwythurau MARAC, grŵp amlasiantaethol sy'n cynllunio ar gyfer diogelwch dioddefwyr camdriniaeth domestig risg uchel. Y nod yw datblygu strwythur a fydd yn gweithio ar gyfer y dyfodol yn nhermau pa mor effeithiol ydyw a rheoli'r galw | • Y gwaith datblygu wedi cychwyn yn ôl Mis Medi, ond mae ymateb i'r sefyllfa C19 wedi arwain i strwythur MARAC wythnosol, er mwyn sicrhau yr ymateb gorau ar gyfer y dioddefwyr. | M |
| | 17 | • Mae gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn ei chael | • Mae'r gwaith yma ar saib ar hyn o bryd. | M |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | hi'n anodd adnabod adeiladau priodol ac sydd ar gael ym Mangor, lle gallant ddarparu eu gwasanaethau. Mae partneriaeth yn gweithio ar y cyd i adnabod unrhyw gyfle i ddatblygu'r lle sydd ar gael yn yr ardal hon ar y cyd | Oherwydd y Pandemig, mae sefyllfa Gwasanaethau wedi newid o ran eu anghenion gofod. Bydd unrhyw gyfleoedd datblygu yn cael eu cynnwys ym mhlan blwyddyn nesaf. | |
| | 18 | • Cynnal adolygiad amserol o'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau i bobl ifanc, 'Be di'r Sgôr', i sicrhau bod llwybrau cyfeirio yn effeithiol | • Adolygiad ar waith, ddim eto wedi cwblhau. Mae'r gwaith hyd yn hyn wedi tynnu sylw at yr angen o Weithiwr Iechyd Meddwl i'r gwasanaeth. Trafodaethau yn parhau ac byddant yn cael eu cynnwys ym mhlan blwyddyn nesaf. | M |
| | 19 | • Bydd gwasanaeth allgymorth haen 2 newydd ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn cael ei roi ar waith ledled Gogledd Cymru, byddwn yn sicrhau bod yr adnodd hwn wedi'i fodelu'n lleol mewn modd sy'n ategu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, ac mae llwybrau priodol ar waith ar gyfer targedu yn effeithiol | • Gwasanaeth ymestyn allan newydd wedi ei sefydlu – gyda 5 swydd newydd. Mae'r Gwasanaeth yn datblygu'n dda ac yn sefydlu cysylltiadau â gwasanaethau lleol. | G |
| BOD YN RHAN O ADOLYGIAD RHANBARTHOL O LYWODRAETHU A STRWYTHURAU AR GYFER DIOGELWCH CYMUNEDOL | | | | |
| Beth sydd angen ei wneud eleni | 20 | • Bydd y Byrddau Strategol presennol ledled Gogledd Cymru yn cael eu rhesymoli, a bydd y bartneriaeth leol yn sicrhau ein bod yn hysbysu'r broses o safbwynt lleol. Y nod - strwythur llywodraethu mwy effeithlon ac effeithiol | • Mae'r gwaith hwn wedi symud ymlaen yn gynharach na'r amserlen oedi a awgrymwyd , sef mis Medi - mae'r strwythurau bellach wedi'u sefydlu. Mae cylch gorchwyl ac aelodaeth pob un o'r bwrdd newydd yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd | G |
| | 21 | • Mae Llywodraeth Cymru yn parhau gydag adolygiad o | • Datganiad wedi ei dderbyn Mis Mehefin, y | G |

Tudalen 62

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | faterion Diogelwch Cymunedol - byddwn yn ymateb fel sydd angen ar lefel leol | bydd Arian ar gyfer Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol Cymru ar gyfer sefydlu y strwythur newydd yn y flwyddyn ariannol nesa. Rhaglen gyfredol yn dod i ben felly – tasgau wedi ei cyflawni | |
| | 22 | • Bydd y bartneriaeth yn adrodd i'r strwythurau llywodraethu gofynnol - yn cynnwys, am y tro cyntaf, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | • Adroddiad wedi rhannu gyda BGC yn Mis Medi | G |
| | 23 | • Fel Partneriaeth, rydym yn parhau i ymgymryd â'n dyletswydd yng nghyswllt cynnal adolygiadau o laddiadau domestig. Rydym yn dechrau'r flwyddyn strategol newydd hon gyda dau adolygiad ar y gweill. Y nod yw dysgu o ddigwyddiadau o'r fath, a gwella'r ddarpariaeth lle bo hynny'n bosib | • Mae DHR 2 wedi mynd i'r Swyddfa Gartref yng Ngorffennaf. DHR 4 - dwy gyfarfod panel wedi cymryd lle, ac mae'r IMRs wedi'i cwblhau. | G |
| PEILOTA PROSIECTAU NEWYDD | | | | |
| Beth sydd angen ei wneud eleni | 24 | • Bydd trafodaethau'n parhau gyda phartneriaid perthnasol i sefydlu a ellir sefydlu bugeiliaid stryd yng Nghaernarfon | • Oedi oherwydd C19 | C |
| | 25 | • Bydd prosiect peilot yn digwydd yng Nghaergybi yn seiliedig ar ddiogelu cyd-destunol. Nod hyn fydd i'r gymuned chwarae ei rhan wrth ddiogelu pobl ifanc a allai fod mewn perygl o niwed neu droseddu | • Oherwydd heriau Covid, nid yw'r Peilot wedi'i roi ar waith, byddan yn parhau i archwilio hyn yng nghynllun y flwyddyn nesaf. | M |
| | 26 | • Bydd gwaith yn digwydd eleni i archwilio'r posibilrwydd o fenter beilot ynghylch Cyn filwyr a pherthnasau iach. Y nod yw adnabod unrhyw faterion penodol sy'n berthnasol i gyn | • Roedd yr datblygiad hwn wedi cael ei ohirio oherwydd Covid, ond yn y cyfamser - mae ein partneriaid yn y fenter wedi rhannu | G |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | filwyr, lle gallai fod angen ymyraethau wedi'u teilwra | darpariaeth RELATE penodol i gyn-filwyr gyda holl swyddogion cyswllt y lluoedd arfog ledled Cymru a rhanddeiliaid priodol eraill, gan geisio gwella atgyfeirio rhwng y ddau sector. Yn dilyn ymgyrch cenedlaethol ynglŷn a trais yn y cartref o fewn y gymuned lluoedd arfog, rhannwyd y ddogfen yma i ddarparwyr gwasanaeth ledled y rhanbarth.<br><br>DVA in military families.pdf<br><br>Felly, cyflawnwyd yr item hon er mewn model gwahanol. | |
| | 27 | • Bydd Awdurdod Lleol Môn yn peilota ap 'cadw'n ddiogel' newydd ar gyfer plant/rhieni drwy'r ysgolion ac yn rhannu gwersi ar y diwedd | • Mae'r ap cadw'n ddiogel wedi'i gyflwyno gan y datblygwyr i swyddogion addysg a chynrychiolwyr o ysgolion uwchradd yn Ynys Môn. Bydd y defnydd o'r ap yn cael ei hyrwyddo ym mhob ysgol | **G** |
| | 28 | • Bydd prosiect peilot o dri mis yn cael ei redeg gan Crimestoppers yn ne Gwynedd. Gan weithio law yn llaw â'r Cynghorwyr Lleol a'r cymunedau, y nod yw cynyddu hyder y cymunedau i adrodd am droseddau'n ddienw, heb gyswllt uniongyrchol gyda'r Heddlu | • Crimestoppers wedi oedi ar yr ymgyrch yma ym mis Mawrth oherwydd yr argyfwng Covid 19. | **C** |

Tudalen 63

Monitro -

Bydd y Bartneriaeth yn derbyn diweddariadau chwarterol ynghylch sut mae troseddau a digwyddiadau yn digwydd yng Ngwynedd a Môn. Bydd yr adroddiad dadansoddol yn egluro unrhyw anghysondebau ac yn adrodd am unrhyw ffactorau ychwanegol sydd angen sylw.

Yn ogystal, bydd y cynllun gwaith yn cael ei fonitro ac adroddir ar hynny.

## Partneriaeth Diogelwch Cymunedol – Gwynedd a Môn

### Beth ydyw?

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn grŵp o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i edrych ar sut orau i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn. Mae'r gofyn i gael partneriaeth o'r fath mewn lle ar lefel leol yn rhan o'r gyfraith, sef Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae gan nifer o sefydliadau ran i'w chwarae o fewn y bartneriaeth, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol, yr Heddlu, y gwasanaethau Prawf, y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bwrdd Iechyd.

Mae gennym gyfrifoldebau dan Ddeddf 1998 am nifer o feysydd, gan gynnwys – lleihau trosedd ac anhrefn, lleihau aildroseddu, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ogystal, mae dyletswydd arnom i gomisiynu adolygiadau Lladdiad Domestig mewn rhai amgylchiadau penodol. Hefyd, mae dyletswydd arnom i baratoi asesiad blynyddol o drosedd ac anhrefn, er mwyn ein harwain o ran yr hyn sydd angen ei flaenoriaethu.



### Beth mae'n ei wneud?

Ers ei sefydlu gyntaf dros 20 mlynedd yn ôl, mae'r bartneriaeth wedi mynd drwy sawl newid. I gychwyn, câi'r gwaith ei gefnogi gan nifer o grantiau lleol a chydlynwyr ymroddedig. Fodd bynnag, heddiw, caiff yr holl grantiau eu derbyn yn rhanbarthol (gogledd Cymru), ac mae adnoddau cefnogol pwrpasol wedi symud i drefn ranbarthol hefyd. Felly, rydym wedi addasu i'r tirlun newydd sy'n golygu gweithio i raddau helaeth gyda phartneriaid ar draws gogledd Cymru, i sicrhau cyfleoedd ac adnoddau i weithredu newid yn lleol. Byddwn yn cynnwys y cynlluniau a strategaethau rhanbarthol yn y ddogfen hon ble bo'n briodol, fel ein bod yn cynnwys yr holl waith sy'n cael ei wneud.

Ers 1998, mae llawer o'r gwaith wedi bod yn ymwneud â phrif ffrydio diogelwch cymunedol i waith pob dydd yr holl bartneriaid. Mae hyn wedi arwain at weld newidiadau helaeth, gan fod gwasanaethau bellach yn cynllunio ac ymgorffori anghenion pobl fregus a dioddefwyr yn eu gwaith bob dydd. Mae hyfforddiant ar nifer o faterion yn ymwneud â throsedd ac anhrefn yn fater o drefn erbyn hyn, ac mae cydweithio rhwng asiantaethau yn rhywbeth sy'n digwydd bob dydd.

Heddiw, rydym yn cynnal datblygiadau'r 20 mlynedd diwethaf, sydd wedi gweld lleihad mewn rhai mathau o droseddau, ond hefyd y mwybyddiaeth o droseddau newydd sydd angen sylw arbenigol. A ninnau wedi sefydlu cysylltiadau gweithio a rhwydweithiau ar draws rhanbarth gogledd Cymru, rydym mewn sefyllfa well i ymateb i'r heriau newydd hyn.

Yn lleol, rydym yn dal i gynnal ein grwpiau cydweithio ac yn chwilio'n gyson am ffyrdd i wella sut ydym yn gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'n meysydd cyfrifoldeb. Isod, byddwn yn dangos pa strwythurau sydd gennym mewn lle i symud ein gwaith ymlaen, a hefyd pa feysydd penodol fydd yn cael ein sylw dros y 12 mis nesaf.

## Newidiadau i'r ffigyrau Trosedd – effaith y pandemig

Yn ystod y cyfnod clo genedlaethol rhwng Ebrill a Mai 2020, gwelwyd gostyngiad sylweddol o 32% mewn trosedd yn gyfan-gwbl (ac eithrio twyll a chamddefnyddio cyfrifiadur) drwy Gymru a Lloegr (ONS, 2020). Fe wnaeth troseddau dwyn, yn enwedig byrgleriaeth ddomestig a dwyn mewn mannau cyhoeddus, ostwng yn sylweddol wrth i bobl dreulio mwy o amser gartref ac yn sgil y cyfyngiadau ar symud a chau'r economi gyda'r nos. Fe wnaeth Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ganfod fod pobl o'r farn fod trosedd wedi gostwng ers dechrau'r feirws, ond roedd pryder ynglŷn â throsedd wedi aros yr un fath. Bu i'r arolwg ganfod hefyd fod canfyddiadau'r cyhoedd o'r heddlu a'u hymateb i'r pandemig coronafeirws yn bositif ar y cyfan. O ddiwedd mis Mehefin a thrwy fis Gorffennaf, dechreuodd y ffigyrau trosedd (rhai wedi eu hadrodd) gynyddu, ac erbyn canol Medi roedd y ffigyrau wedi dychwelyd i'r cyfraddau cyn y cyfnod clo. Fodd bynnag, mae bron pob un o'r mathau o drosedd yn dal i fod yn is na'r adeg hon y llynedd, ac mae trais gydag anaf, a throseddau meddiangar, yn sylweddol is. Ond gwelwyd cynnydd mewn rhai mathau o drosedd; Mae troseddau domestig nawr yn dychwelyd i'r cyfraddau cyn y cyfnod clo, ac roeddem wedi disgwyl hyn. Rhoddwyd ymyraethau ar waith yn ystod y misoedd diwethaf i fynd i'r afael â hyn.

Yn ystod cyfnod ein cynllun diwethaf, roeddem wedi cynllunio rhywfaint o gamau, na ellid eu cymryd oherwydd y sefyllfa bandemig. Mae'r ffordd rydym yn gweithio wedi newid yn ddramatig dros y cyfnod hwn, gyda chyfarfodydd a chysylltiadau yn symud ar-lein, a gwasanaethau rheng flaen yn addasu i fodloni gofynion cyfyngiadau Covid. Mae addasu'r ffordd yr ydym yn ymateb i angen bellach yn ffactor cyson o'r gwaith y mae pob sefydliad yn ei wneud. Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i weithio gyda'n gilydd fel partneriaid, i gynorthwyo a herio ein gilydd mewn ffordd agored ac adeiladol, fel ein bod ni gyda'n gilydd yn gwneud y gorau y gallwn i ddiwallu anghenion newidiol, ac weithiau cynyddol, ein cymunedau.

Mae gan y bartneriaeth ddyletswydd statudol i gynnal adolygiad, o'r enw adolygiad dynladdiad domestig, o dan amgylchiadau penodol. Yn anffodus, yng Ngwynedd mae 6 adolygiadau o'r fath ers 2012 – mae 2 wedi digwydd eleni. Mae'r adolygiadau hyn yn bwysig, a rhaid cydnabod eu bod yn defnyddio llawer iawn o adnoddau y bartneriaeth. Weithiau gall hyn arwain at faterion eraill yn cael llai o sylw nag efalle posib fel arall.

## Strwythurau diogelwch cymunedol -

### Rhanbarth Gogledd Cymru -

Mae gennym sawl Bwrdd yng ngogledd Cymru sy'n dod â'r partneriaid angenrheidiol ynghyd i drafod amrywiol agweddau o Ddiogelwch Cymunedol, mae'r rhain yn cynnwys -

- Bwrdd Gogledd Cymru Ddiogel – sy'n sicrhau trosolwg a chyfeiriad rhanbarthol mewn perthynas â materion trosedd ac anhrefn yn yr ardal
- Y Bwrdd Diogelu - mae ganddo strategaeth sy'n ymwneud â dyletswyddau diogelu plant ac oedolion
- Y Bwrdd Bregusrwydd ac Ecsploetiaeth – lle mae strategaeth i daclo trais domestig, trais rhywiol a chaethwasiaeth fodern
- Bwrdd Cynllunio Ardal – sy'n cynnwys asesiad anghenion, strategaeth a chynllun comisiynu yn ymwneud â Chamddefnyddio sylweddau (cyffuriau ac alcohol)
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol / Bwrdd Rheoli Troseddwyr yn Integredig – yn rhoi sylw i aildroseddu
- Bwrdd CONTEST – lle caiff dyletswyddau statudol i fynd i'r afael â therfysgaeth eu sefydlu

Mae yna hefyd nifer o is-grwpiau, neu grwpiau tasg a gorffen i fynd â'r gwaith yn ei flaen, megis -

- Amryw o grwpiau comisiynu, lle caiff gwasanaethau arbenigol eu comisiynu
- Troseddau difrifol a chyfundrefnol – lle mae gennym asesiad anghenion rhanbarthol, strategaeth ac argymhellion sydd nawr yn cael eu gweithredu fel rhan o'r gwaith craidd

## Gwynedd ac Ynys Môn -

Ceir nifer o grwpiau lleol ar draws Gwynedd a Môn sy'n rhoi'r gweledigaethau strategol hyn ar waith. Bydd partneriaeth Diogel wch Cymunedol Gwynedd yn cynnal trosolwg o'r ffrydiau gwaith hyn yn lleol, ond bydd hefyd yn edrych yn ofalus ar sut a lle mae angen i arferion gweithredol wella.

Dros y 12 mis nesaf, byddwn yn edrych ar y meysydd gwaith a ganlyn -

- Deall beth mae'r asesiad strategol blynyddol a phroffiliau/dadansoddiadau eraill a gwblhawyd yn ei ddweud wrthym o ran beth sydd angen i ni ei wneud
- Ein rhaglenni hyfforddi a codi ymwybyddiaeth – i sicrhau bod gennym weithlu gwybodus a galluog
- Sicrhau ein bod yn datblygu ein arferion gweithio er mwyn cwrdd â gofynion newydd, megis Llinellau Cyffuriau (gangiau cyffuriau cyfundrefnol)
- Edrych ar y cysylltiadau a'r arferion gweithio yn lleol, a gwella cyfathrebu a strwythurau lle bydd angen
- Peilota prosiectau newydd a monitro'r deilliannau

## Yr asesiad strategol -

Mae'r asesiad sydd newydd ei gwblhau ar gyfer gogledd Cymru yn dweud wrthym bod angen blaenoriaethu'r meysydd isod. Gan fod yr asesiad yn seiliedig ar lefel y risg a hefyd ar allu'r gwasanaethau i ymateb, nid yw pob math o drosedd yn flaenoriaeth ar hyn o bryd. Mae gennym ddealltwriaeth dda o rai mathau o drosedd, ac mae ymateb y sefydliadau angenrheidiol yn briodol ac wedi'i hen sefydlu. Nid yw hyn yn golygu nad ydym yn ymdrin ag unrhyw broblemau sy'n codi, ond gall olygu nad oes raid i ni roi sylw priodol i'r materion hynny fel partneriaeth.

- Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Camddefnyddio Sylweddau a'r holl droseddau sydd ynghlwm â hynny, megis Llinellau Cyffuriau ac ecsploetiaeth
- Dioddefwyr sy'n fregus
- Lleihau aildroseddu
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Troseddau Meddiangar Difrifol (SAC) gan gynnwys troseddau cyfundrefnol

Mae'r materion hyn wastad ar feddwl yr holl bartneriaid wrth i ni weithio mewn partneriaeth o ddydd i ddydd, fodd bynnag, mae gennym ddyletswydd, unwaith y flwyddyn, i ystyried pa agweddau o drosedd ac anhrefn sydd wir yn peri pryder wrth i ni sefydlu ein cynlluniau am y 12 mis i ddod. Byddwn yn penderfynu pa faterion yw'r rhain drwy gynnal asesiad strategol, ac eleni rydym wedi amlygu'r canlynol fel materion sydd angen sylw -

- Troseddau cyffuriau difrifol a chyfundrefnol
- Ecsbloetio a cham-drin plant yn rhywiol (CSE)
- Caethwasiaeth fodern
- Cam-drin domestig
- Troseddau casineb
- Pobl ar goll
- Dreifio dan ddylanwad (cyffuriau ac alcohol)
- Twyll – yn cynnwys troseddau seiber
- Treisio a throseddau rhywiol difrifol

## Cynllun gwaith ar gyfer y 12 mis nesaf -

Fel nodir uchod, mae gan Fyrddau rhanbarthol gogledd Cymru nifer o gynlluniau a strategaethau, ac mae'r holl bartneriaid o fewn y BDC yn cyfrannu at y rhain ar sail ranbarthol. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu monitro gan y Byrddau rhanbarthol. I osgoi dyblygu – ni fydd y camau gweithredu rhanbarthol yn cael eu cynnwys yn y camau lleol isod. Fodd bynnag, os oes problemau yn y naill Sir neu'r llall o ran gweithredu'r cynlluniau rhanbarthol, yna gellir tynnu sylw at y problemau hynny'n lleol a'u cynnwys yn y camau gweithredu isod er mwyn derbyn sylw'n lleol.

| EIN RHAGLEN HYFFORDDIANT A CODI YMWYBYDDIAETH | | | RAG |
|---|---|---|---|
| Beth sydd angen ei wneud eleni | 1. Mae'n rhaid i'r holl Awdurdodau Lleol, y Byrddau Iechyd a'r Gwasanaeth Tân ac Achub ddechrau gweithredu'r lefel hyfforddiant Gofyn a Gweithredu yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Gamdriniaeth Ddomestig. Mae gan BIPBC raglen arall mewn lle – mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno iddi. Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar y ffordd i gwrdd â'r lefelau gofynnol o sesiynau hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'r ddau Awdurdod Lleol wedi profi anawsterau, yn fwy na dim y sefyllfa gyda C19. Mae'r ddwy Sir wedi gweithio tuag at ddatblygu fersiwn rithiol o'r pecyn hyfforddiant – ar ôl sesiynau peilot o'r fersiwn hon, bydd yn cael ei chyflwyno yn ystod 2021-2. | • Diweddariadau Ch3 a Ch4 | |
| | 2. Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn adnewyddu ymwybyddiaeth Gweithredu Cynnar Gyda'n Gilydd (EAT) ymhlith y gweithlu. Mae'r broses EAT wedi'i chytuno a'i gweithredu gan yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, fel ffordd o nodi unigolion a allai fod angen cefnogaeth a chyngor, fel ymyrraeth ataliol. Mae'n deillio o'r ymchwil Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE), sy'n cydnabod sut y gall ACE arwain at | • Diweddariad Ch3 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymddygiadau troseddol neu niweidiol yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'r cysyniad yn ymwneud â deall yr ymddygiadau hyn a darparu ymyrraeth yn gynharach lle bo hynny'n bosibl. | | |
| | 3. Er mwyn hwyluso'r gwaith o godi ymwybyddiaeth mewn perthynas â rhai mathau o drosedd, byddwn yn adolygu ac yn diweddaru'r 'canllawiau munud' ac yn sicrhau eu bod ar gael i'r holl bartneriaid a gwasanaethau ALl. | • Diweddariad Ch1: Canllawiau Cyflym wedi'i diweddaru erbyn hyn. Y rhain wedi cael eu pasio ymlaen i'r Grŵp Gweithredol Diogelu Corfforaethol ac yn mynd ar y rhaglen waith i'w ystyried. Gwaith yma yn parhau. | M |
| | 4. Mae gwybodaeth ar y ddyletswydd Prevent a'r llwybr cyfeirio (ar gyfer y cyhoedd) yn cael ei rannu ar wefannau'r Awdurdodau Lleol (roedd hyn ar gael ar wefannau'r partneriaid yn barod, ond nid yr AauLl). | • Diweddariad Ch1: Gwybodaeth ynglŷn a'r Dyletswydd Prevent gyda adnodd cymorth a gwybodaeth ar gael ar dudalennau wê y ddau gyngor. | G |
| SICRHAU EIN BOD YN DATBLYGU EIN HARFERION GWEITHIO I DDIWALLU GOFYNION NEWYDD | | | |
| Beth sydd angen ei wneud eleni | 5. Mae'r Bwrdd Cynllunio Ardal wedi datblygu cynllun alcohol gogledd Cymru 4 blynedd. Byddwn yn sefydlu grwpiau tasg a gorffen yn y ddau Awdurdod Lleol er mwyn penderfynu pa agweddau o'r cynllun sy'n berthnasol ac yn bosibl yn y ddau ALl dros y 12 mis nesaf. | • Diweddariadau Ch3 a Ch4<br>• Q2: Gwaith yma yn parhau – canolbwyntio ar gyfleon codi ymwybyddiaeth megis Wythnos Ymwybyddiaeth Alcohol ym mis Tachwedd. | M |
| | 6. Agweddau o'r cynllun gwaith rhanbarthol a fydd yn gwella gwasanaethau yng Ngwynedd ac Ynys Môn –<br>• Adolygu'r ddarpariaeth cyswllt alcohol yn yr ysbyty Lleol, er mwyn diwallu anghenion yn well | • Diweddariadau pob Ch<br>• Gwaith yn parhau o amgylch y weithred hon, mae'r fanyleb gwasanaeth wedi'i hadolygu a'i | M |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | datblygu i ddiwallu anghenion. Mae gweithdrefnau gweithredol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ac yn adolygu gwybodaeth monitro. Adolygiad yn symud ymlaen yn dda gyda partneriaid yn cyd weithio yn effeithiol. | |
| | • Ailfodelu'r cysylltiadau tîm SMS (gwasanaeth camddefnyddio sylweddau) a CAMHS (gwasanaeth iechyd meddwl plant a pobl ifainc). | • Cynhaliwyd cyfarfodydd i nodi unrhyw fylchau a phroblemau gyda'r llwybr atgyfeirio cyfredol. Mae anghenion hyfforddi hefyd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd i gynyddu ymwybyddiaeth ac adnabod materion camddefnyddio sylweddau yn yr ysbyty. Mae llwybr nawr mewn lle yn yr Ysbyty er mwyn sicrhau cefnogaeth i bobl ifanc sydd yn mynd i'r Uned Brys neu yn cael ei derbyn ar y ward Plant. Mae gwaith yn parhau gyda gwasanaethau er mwyn sicrhau codi ymwybyddiaeth a bod gwasanaethau ac adrannau yn yr ysbyty yn gallu adnabod unigolion sydd angen ymyrraeth. | G |
| | • Mewn ymateb i angen a nodwyd – ychwanegu adnodd iechyd meddwl newydd yn y tîm Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc (Be'dir sgor) Mi fydd yr adnodd yma hefyd yn cryfhau cydweithio gyda CAMHS a'r Ysbyty yn ogystal a gwella darpariaeth i gefnogi pobl ifanc sydd yn | • Mae swydd ddisgrifiad a manyleb person wedi'i greu ac ar hyn o bryd mae'n cael ei werthuso gan AD, gyda'r nod o fynd allan i hysbysebu yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae'r swydd ddisgrifiad a manyleb person wedi ei cytuno ac | M |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dioddef o gamddefnyddio sylweddau ar y cyd a phroblemau iechyd meddwl. | yn aros am gadarnhad gan yr Adran Gyllid cyn symud ymlaen i hysbysebu o fewn yr wythnosau nesaf. | |
| | • Parhau â'r ymdrechion i ddod o hyd i adeiladau priodol ym Mangor ar gyfer gwasanaethau CS lleol | • Mae'r gwaith yma yn parhau, mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda Iechyd Meddwl Cymunedol i nodi adeilad i rannu. Gwaith yn parhau yn anffodus- heb allu adnabod adeilad. | M |
| | • Mewn ymateb i'r angen a nodwyd, datblygu adnodd ychwanegol o fewn Gwasanaeth cefnogi meddyginiaeth ragnodedig (cwnsela) i gwrdd a'r angen yn lleol a rhanbarthol ac hefyd, yn benodol, i gwrdd ag anghenion Merched beichiog a phobl hŷn. | • Mae swydd newydd wedi'i chreu a'i recriwtio iddi, gan sicrhau mwy o allu yn y gwasanaeth i ddiwallu anghenion. Swyddi mewn lle, a parhau i fonitro trwy wybodaeth monitor chwarterol a chyswllt cyson gyda'r Gwasanaeth. | G |
| | • Sefydlu a datblygu'r Gwasanaeth Ymyriadau seicolegol ar gyfer unigolion sydd wedi cael ei effeithio gan gamddefnyddio sylweddau. Mi fydd y gwasanaeth newydd mewn lle o'r 1af o Ebrill 2021. Mi fydd y Gwasanaeth newydd yn cynnwys adnodd i ddatblygu a cydlynu Grwpiau cefnogi – Symud ymlaen yn fy Adferiad ( Moving on in My Recovery). | • Mae gwasanaeth newydd (CAMFA) mewn lle ers y 1af o Ebrill, y darparwr newydd yw CAIS. Mae hyn yn datblygu'n dda gyda chyfarfodydd monitro rheolaidd ar waith. Parhau i ddatblygu yn dda. Wedi bod yn heriol gyda recriwtio i swyddi newydd ond bellach wedi ei llenwi ac yn dal i fyny gyda pethau. | G |
| | | • Mae'r prosiect Cymorth Cymheiriaid wedi cychwyn. Bydd gwerthuso'n digwydd yn gynnar | G |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Parhau â'r prosiect peilot cymorth cymheiriaid yn Ynys Môn - gan ddarparu pecynnau hyfforddi ar gyfer Cymheiriaid a nodwyd, i weithio gyda theuluoedd / unigolion ac adnabuwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y prosiect yn cael ei werthuso gyda'r gobaith o ehangu os yn llwyddiannus. | y flwyddyn nesaf, gobeithio gyda mwy o gyfranogwyr yn cymryd rhan. Prosiect yn datblygu yn dda ac wedi gallu cael mwy o niferoedd i ymuno yn y prosiect hefyd. | |
| | 7. Byddwn yn sicrhau bod y cyfrifoldebau a roddir ar y PDC mewn perthynas â chynnal diwygiadau lladdiad domestig (DHR's) yn cael eu cwblhau'n briodol. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu sicrhau bod paneli adolygu, cadeiriau ac awduron yn cael eu comisiynu a bod adroddiadau adolygiad terfynol yn cael eu cyflwyno a'u derbyn gan y Swyddfa Gartref. Ar hyn o bryd, mae 4 adolygiad yng Ngwynedd ar wahanol gamau i'w cwblhau. Bydd rhai yn cael eu cwblhau o fewn y flwyddyn ariannol honno a bydd rhai yn cario drosodd. | • Diweddariadau bob Ch | M |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 8. Dros y flwyddyn i ddod, bydd Heddlu Gogledd Cymru yn creu Uned Trosedd Economaidd (ECU) a fydd yn cynnwys swyddogion twyll wedi'u hyfforddi'n arbennig, swyddogion seiberdroseddu a swyddogion ymchwilio ariannol. Y nod yw darparu gwybodaeth arbenigol am dwyll a seiberdroseddu i gydweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd. Bydd yn sicrhau bod swyddogion yn gallu ymchwilio i dwyll a seiberdroseddu yn fwy effeithiol a fydd yn lleihau faint o amser y mae ymchwiliadau twyll yn ei gymryd. Bydd yr uned yn darparu ymyrraeth gynnar i darfu ar dwyllwyr a'u gweithgareddau a fydd yn lleihau effaith twyll ar gymunedau lleol. Bydd swyddogion twyll yn nodi troseddwyr mynych sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru ac yn goruchwylio'r holl droseddau twyll a gyflawnir yng Ngogledd Cymru, gan ei gwneud hi'n bosibl olrhain tueddiadau twyll. Bydd yr uned hefyd yn darparu addysg, cyngor atal troseddau a chefnogaeth i grwpiau bregus wedi'u targedu ledled ardal Gogledd Cymru mewn ymgais i leihau erledigaeth. Bydd pob swyddog PCSO a CID newydd yn cael hyfforddiant penodol ar dwyll a seiberdroseddu i'w galluogi i nodi troseddau a darparu'r cyngor a'r gefnogaeth gywir i'r cyhoedd. | • Diweddariad Ch3 | |
| | 9. Mae gwasanaethau plant Gwynedd wedi datblygu darpariaeth newydd, o'r enw Emrallt, i wella'r gallu i adnabod ac atal ymddygiadau rhywiol amhriodol, problemus neu niweidiol gan blant, yn gynnar. Bydd y gwasanaeth, sydd o fewn y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid, yn cynnig cefnogaeth, arweiniad a chyngor i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, gan ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ac adnoddau. | • Diweddariadau Ch2 a Ch4<br>• CH2: Mae tîm Ymddygiad Rhywiol Niweidiol Gwynedd (Emrallt) wedi'i sefydlu'n llawn ac yn weithredol. Nod y tîm nawr yw ymateb i ymholiadau gan asiantaethau ar draws Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg. Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, bu ymgyrch i uwch-sgilio staff ac maent wedi cyflwyno rhaglen hyfforddi sy'n cynnig arweiniad i ymarferwyr ar | G |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae tîm Emrallt yn cefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant sy'n dangos yr ymddygiadau niweidiol hyn, ac mae ar gael i staff o'r sectorau Addysg, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd.<br>Disgwyliwn y bydd y Gwasanaeth yn codi mwy o ymwybyddiaeth ar draws asiantaethau am bwysigrwydd adnabod ac ymyrryd yn gynnar trwy sefydlu llwybr amlasiantaethol ar gyfer rheoli ac ymateb i ymddygiad rhywiol problemus neu niweidiol. | ddefnyddio rhestr wirio i nodi pa ymddygiadau sydd angen ymateb. Mae gwella dealltwriaeth staff ar adnabod yn gynnar ac ymagweddau ataliol tuag at ymddygiad o'r fath wedi caniatáu inni nodi achosion yn gynt er mwyn osgoi cynnydd mewn risg. | |
| | 10. Mae gwasanaeth digartrefedd Cyngor Gwynedd wedi adnabod yr angen i gynyddu'r llety â chymorth sydd ar gael yn y Sir. Ar ôl adolygu'r ddarpariaeth gyfredol ac ystyried y galw ychwanegol sy'n wynebu'r gwasanaeth, maent yn buddsoddi mewn darpariaeth ychwanegol ac ailwampio'r ddarpariaeth gyfredol i ddiwallu'r anghenion cynyddol yn well. Yn aml mae gan bobl sy'n cyflwyno'n ddigartref, neu sydd â phroblemau gyda chynnal tenantiaeth, anghenion cymhleth sy'n gofyn am gefnogaeth bwrpasol. Sicrheir peth o'r cymorth hwn trwy gomisiynu 'floating support' cyfredol, ond bydd llawer yn cael ei ddatblygu o fewn y gwasanaethau digartrefedd. Bydd hyn yn cynyddu'r unedau cymorth sydd ar gael ledled y Sir, gan gynnwys carfannau penodol wedi'u targedu, fel menywod sy'n gadael carchardai, ac unigolion ag anghenion cymhleth iawn.<br>Cydnabyddir bod llawer o unigolion sy'n cyflwyno yn ddigartref, yn wynebu nifer o faterion cymdeithasol ac emosiynol cymhleth a all arwain at ymddygiadau anhrefnus neu droseddol hyd yn oed. Trwy sefydlu fframwaith cymorth | • Diweddariad Ch4 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mwy cadarn, yna mae ymyrraeth gynharach yn bosibl i'r rheini a allai fod yn dioddef o broblemau o'r fath. | | |
| EDRYCH AR Y CYSYLLTIADAU A'R ARFERION GWEITHIO LLEOL, A GWELLA CYFATHREBU A STRWYTHURAU LLE BYDD ANGEN | | | |
| | 11. Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi cyflwyno Tîm Dedfryd Tymor Byr (STST) newydd ar gyfer carcharorion sy'n gadael HMP Berwyn. Pwrpas y Tîm yw darparu ymateb cyflym i garfan anhrefnus ac i leihau cyfraddau aildroseddu a galw yn ôl i droseddwyr sydd yn derbyn dedfrydau o 12 mis neu lai. Bydd yn canolbwyntio ar ystyried ffyrdd effeithiol o dorri cylchedd 'revolving door' y garfan yma o ail fynd i'r carchar, wrth weithio gyda carcharorion gyda dedfrydau byr er mwyn datblygu cynlluniau ailsefydlu effeithiol. Bydd ymarferwyr yn cael eu hyfforddi i fynd i mewn i'r carchar er mwyn cadw cysylltiad ag achosion STST ar adegau allweddol yn ystod eu dedfryd. Bydd hyn yn golygu mwy o gyswllt cyn-rhyddhad rhwng y Rheolwyr Troseddwyr Carcharai a Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol (COM/POM) i ddatlbygu perthynas gyda'r Defnyddiwr Gwasanaeth wrth baratoi ar gyfer eu rhyddhad. Mae cymhwysedd ar gyfer yr achosion hyn yn wrywod 18 oed=, gyda lefel risg yn amrywio o isel i uchel. Yn y Gorllewin, bydd tîm o 6 Swyddog. Ers sefydlu'r Tîm yn mis Gorffennag y llynedd, mae Covid wedi achosi problemau yn yr ystyr nad oedd staff yn gallu ymweld â'r carchar yn y gorffennol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y gwaith yn mynd rhagddo fel arfer yn ystod y flwyddyn nesaf pan godir cyfyngiadau. | • Diweddariad Q2 + Q4<br>• CH2: Mae'r Tîm Dedfryd Tymor Byr (STST) yn parhau i ddatblygu eu gwaith yn yr Gorllewin. Mae'r cyfyngiadau gyda COVID wedi barhau i effeithio ar fynediad i'r carchardai ond gwnaed cysylltiadau rhithwir â HMP Berwyn gyda chyfarfodydd ar y cyd yn wythnosol. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys staff tai ac staff ailsefydlu o Berwyn. Mae 8 o weithwyr ailsefydlu bellach ynghlwm â Gogledd Cymru, gyda dau o'r rhain yn gysylltiedig â Gwynedd a Môn- mi fydd y staff yma yn gallu helpu hefo'r gwaith wyneb yn wyned hefo'r dynion yn y carchar ar rhan y swyddogion prawf. Mae'r adborth cynnar am yr effaith ar gyfraddau galw yn ôl yn gadarnhaol gyda ostyngiad o alw yn ôl wedi ei weld. Mae'r ffocws ar hyn o bryd ar cynyddu cyswllt â'r bobl sydd ar trwydded (3 chysylltiad yr wythnos) a sicrhau mynediad cyflym i ymyriadau i gynorthwyo gyda gwaith adfer a lleihau risg. | M |

Tudalen 77

| | | | |
|---|---|---|---|
| Beth sydd angen ei wneud eleni | 12. Er mwyn sicrhau cydweithio effeithiol, bydd y grwpiau lleol sy'n cael eu harwain gan yr Heddlu yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod dal yn addas i bwrpas. Fe fydd y gwaith yn cael ei arwain gan yr Heddlu, gan ddechrau yn Ynys Môn, ac wedyn yng Ngwynedd fel a sydd yn addas. Bydd hyn yn cynnwys, ail edrych ar grŵp i daclo GTC (Grwpiau troseddu cyfundrefnol) | • Diweddariadau Ch1 a Ch3<br>• CH1: Mae rhan fwyaf o'r grwpiau bellach wedi'u sefydlu, bydd diweddariad yng nghyfarfod Ch1 y Bartneriaeth. | M |
| | 13. Ochr yn ochr, ac yn ychwanegol at yr uchod, mae gwasanaethau Plant Ynys Môn (a phartneriaid) i ystyried ac ymchwilio i'r cymhwysiad posibl o 'Diogelu Cyd-destunol' fel fframwaith - a allai gyd-fynd ag rhaglen waith un o'r grwpiau newydd. | • Diweddariadau Ch3 a Ch4 | |
| | 14. Bydd Troseddau Casineb yn ganolbwynt allweddol i Heddlu Gogledd Cymru am y deuddeg mis nesaf gydag Uned Amrywiaeth yr heddlu yn defnyddio cyfle bythol i annog pobl i riportio Troseddau Casineb o gymunedau lleiafrifol. Y nod yw sicrhau bod pawb yn teimlo'n hyderus wrth riportio unrhyw fath o droseddau casineb i'r Heddlu. | • CH2: Parhaodd Tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Heddlu Gogledd Cymru i weld cynnydd yn y Troseddau Casineb yr adroddwyd amdanynt yn ystod y flwyddyn droseddu ddiwethaf, a pharhaodd y tîm i annog riportio troseddau o'r fath iddynt. Yn ystod y 12 mis diwethaf maent wedi gweld nifer o densiynau yn gysylltiedig â throseddau casineb yn ein cymunedau, yn enwedig tensiynau Covid-19, BLM ac ail dai. Maent yn parhau i gefnogi dioddefwyr a thystion. | G |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 15. Mae gan bob aelod o'r bartneriaeth rai cyfrifoldebau mewn perthynas â rhaglen Atal y Swyddfa Gartref (radicaleiddio mewn perthynas â gweithgaredd terfysgol). Mae'r Awdurdodau Lleol yn arwain ar gyfarfodydd Sianel, sydd wedi'u cynllunio i gefnogi'r unigolion a'u llywio rhag cael eu radicaleiddio. Mae yna newidiadau i ofynion proses y Sianel, y byddwn ni'n eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn i ddod. | • Diweddariad Ch3 | |
| PEILOTA PROSIECTAU NEWYDD | | | |
| Beth sydd angen ei wneud eleni | 16. Mae Cyngor Sir Ynys Môn fel pob ALl yn darparu 'cymorth fel bo'r angen' i nifer o unigolion er mwyn atal digartrefedd, ac maent yn cefnogi pobl i fod â'r gallu, yr annibyniaeth, y sgiliau a'r hyder i gael hyd i/cadw cartref sefydlog ac addas. Mae hon yn gefnogaeth sy'n cael ei thargedu, ac mae ar gael i nifer o anghenion dynodedig, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, Camdriniaeth ddomestig, Iechyd Meddwl ac eraill. Mae'r nifer sy'n cael eu cyfeirio i'r gwasanaethau hyn yn uchel, felly mae'r ALl wedi adnabod y rheini sydd ag anghenion lefel isel neu anghenion dechreuol, a bydd yn treialu cynllun sy'n cyfeirio'r unigolion hynny at gyfres o ymyraethau cynnar yn y gymuned – mae hyn yn cynnwys dangos y ffordd iddynt at wasanaethau pwrpasol, mynediad at gludiant cymunedol, Cydlynydd Asedau Lleol, darperir gan Linc Cymunedol Môn. Dylai hyn helpu i roi sylw i'w hanghenion cyn iddynt waethygu, a bydd hefyd yn rhyddhau mwy o gapasiti i roi sylw i unigolion sydd ag anghenion lefel uwch trwy'r ddarpariaeth sefydledig. Y nod yw atal y materion hyn rhag mynd yn fwy difrifol i'r unigolion hynny, a lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn dod yn | • **Diweddariad Ch4**<br>• **Mae'r cynllun yma yn weithredol gyda chyfeiriadau yn cael eu gwneud gan Ddarparwyr Grant Cymorth Tai, pryd y bo'r unigolyn wedi cyfarfod y deilliannau a osodwyd o fewn y cynllun cefnogaeth, ond efallai bod y person yn parhau i fod yn fregus am wahanol resymau. Ers Ionawr 2021, pan dreialwyd y cynllun yma, mae yna oddeutu 75 o gyfeiriadau Cymorth Tai wedi eu hanfon at Môn Community Link sy'n rhan o Medrwn Môn. O ganlyniad mae sawl achos wedi parhau i dderbyn cefnogaeth gyda chwblhau ffurflenni, derbyn gwybodaeth, cyngor, a chymorth, cael eu cyfeirio ymlaen at wasanaethau arbenigol e.e. iechyd a gofal, a chael gwybodaeth am weithgareddau** | **G** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | unigolion bregus yn eu cymuned / yn dod yn ddigartref / y bydd unrhyw ymddygiadau niweidiol yn gwaethygu. | **cymunedol er mwyn ceisio lleihau unigrwydd.** | | |
| | 17. Wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm ysgolion newydd yn 2022, bydd 3 ysgol gynradd yn Ynys Môn ac 1 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd yng Ngwynedd yn treialu'r prosiect 'Casineb troseddau mewn ysgolion' dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Mae dau agwedd i'r datblygiad, sef - sgiliau meddwl beirniadol a sesiynau troseddau casineb. Cefnogir yr agwedd gyntaf gan Sapere (P4C) a'r ail gan NWREN. Y nod yw galluogi plant i archwilio gwahanol fathau o anoddefgarwch yn feirniadol, a chreu mwy o ddealltwriaeth o droseddau casineb. Mae'n amlwg mae hwn yn waith ataliol, a fydd, gobeithio, yn lleihau anoddefgarwch yng nghenedlaethau'r dyfodol. Rhwystrwyd y prosiect hwn i raddau oherwydd y pwysau cyfredol gyda Covid 19, a gallai hyn eto rwystro rhywfaint o gynnydd yn 2021. | • Diweddariad Ch3 | | |

Monitro -

Bydd y Bartneriaeth yn derbyn diweddariadau chwarterol ar droseddau a digwyddiadau yng Ngwynedd a Môn. Bydd yr adroddiad dadansoddol yn egluro unrhyw anghysondebau ac yn adrodd am unrhyw ffactorau ychwanegol sydd angen sylw.

Yn ogystal, bydd y cynllun gwaith yn cael ei fonitro a bydd adroddiad arno.

ATODIAD A – CANLYNIADAU'R CYNLLUN BLYNYDDOL

| **Maes Thematig o'r Asesiad Strategol** | **Sgôr Risg** | **Meysydd Cyfrifoldeb Statudol** | **Prosiect** | **Mewn bynnau ac Allbynnau** | **Canlyniadau (tymor byr/canolig/hir)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflenwad cyffuriau wedi'i drefnu | Uchel | | Rhif 9 | Adolygiad lleol o sefyllfa'r Grŵp Troseddau Cyfundrefnol<br><br>Sefydlu grŵp newydd os nodwyd angen, gan sicrhau ei fod yn addas at y diben | Yn y tymor byr i'r tymor canolig mae ymateb lleol effeithiol i OCG ar waith – yn cyfrannu at y cynllun rhanbarthol ar gyfer gweithgaredd gangiau cyffuriau trefnedig |
| | | Dyletswydd Prevent | Rhif 4 | Rhoddir gwybodaeth am y ddyletswydd Prevent ar safle diogelwch cymunedol y ddwy Sir (A.Ll) i hysbysu'r cyhoedd ac yn rhannu'r ddolen ar gyfer *Act Early.* | Bydd gan y cyhoedd wybodaeth am ble / sut i dderbyn cefnogaeth a cymorth gyda phryderon radicaleiddio |
| | | | Rhif 12 | Mae canllawiau newydd Channel yn cael eu lledaenu o fewn y ddau A.Ll | Mae prosesau newydd ar waith i fodloni gofynion y Swyddfa Gartref |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gofynion newydd yn cael eu gweithredu yn ôl yr angen |  HO Canllawiau Channel .pdf<br><br>Yn y pen draw, cyfrannu at ganlyniadau Prevent y S.G o leihau radicaleiddio |
| Camfanteisio / Camdrin rhywiol ar blant | Uchel | | Rhif 8 | Bydd y sectorau Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael gwybod o'r ddarpariaeth hon<br><br>Cyflwynir sesiynau a chefnogaeth i staff | Yn y tymor hir, mwy o ymwybyddiaeth ar draws asiantaethau o bwysigrwydd adnabod ac ymyrryd yn gynnar trwy sefydlu llwybr amlasiantaethol ar gyfer rheoli ac ymateb i ymddygiad rhywiol problemus neu niweidiol<br><br>Mae unigolion a nodwyd yn derbyn ymyriadau amserol a phriodol, a thrwy hynny arwain at lai o debygolrwydd o ymddygiad troseddol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Rhif 10 | Pwysau cyfredol a sefyllfa Covid yn caniatáu – ailedrych ar y potensial i weithredu dull diogelu cyd-destunol yn ynys Môn – neu rannau o Ynys Môn<br><br>Cydweithrediad wedi'i greu rhwng sectorau perthnasol a phartneriaid. | Mae Diogelu Cyd-destunol yn ceisio deall risgiau diogelu plant o'r tu hwnt i'r teulu e.e. cymunedau, ysgolion. Yn y dull yma, mae pwyslais ar bawb sy'n gweithio yn y gymdogaeth i chwarae eu rhan, e.e. gweithwyr siopau, gyrwyr bysiau. Os yw gweithwyr diogelu proffesiynol yn gallu asesu ac ymyrryd yn y lleoedd hyn, maent mewn sefyllfa well i darfu neu gyfyngu ar gyd-destunau niweidiol, er mwyn lleihau'r risg o niwed.<br><br>Yn y tymor hir – mae ymateb y gymuned i CSE yn tyfu ac mae'r risgiau i blant gan CSE yn lleihau – mae'r rhain yn nodau tymor hir – dangosydd buan i'r nodi wrth i'r broses ddatblygu. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Caethwasiaeth Fodern | Uchel | | | | |
| Trais yn y cartref | Canolig-Uchel | | Rhif 1 | Mae'r Adran Hyfforddi wedi datblygu pecyn hyfforddi rhithiol – i oresgyn cyfyngiadau Covid 19.<br><br>Hyfforddiant rhithiol wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno | Yn y tymor byr, bydd staff yr A.LL yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio Gofyn a Gweithredu.<br><br>Yn y tymor hir – bydd mwy o bobl yn cael eu cyfeirio ac yn derbyn cefnogaeth amserol gyda materion TyyC. |
| Trosedd Casineb | Canolig-Uchel | | Rhif 11 | Uned Amrywiaeth Heddlu Gogledd Cymru – yn annog yn rhagweithiol i gymunedau lleiafrifol i adrodd digwyddiadau | Tystiolaeth barhaus o adroddiadau cynyddol i'r Heddlu |
| | | | Rhif 14 | Cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth o droseddau casineb a sesiynau meddwl beirniadol yn yr ysgolion a enwir | Yn y tymor canolig – bydd yr WLGA yn rhannau canlyniadau peilot i alluogi pobl ysgol i gyflawni trwy'r cwricwlwm newydd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Yn y tymor hir – lleihau anoddefgarwch yng nghenedlaethau’r dyfodol, a thrwy hynny leihau troseddau casineb. |
| | | Mynd i’r afael ag Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol | Rhif 9 | Adolygiad lleol o grwpiau ASB i sicrhau eu bod yn diwallu'r angen cyfredol o ran gweithio mewn partneriaeth<br><br>Sefydlu grwpiau newydd yn seiliedig ar adolygiad | Ymateb lleol i amryw o faterion sydd ar waith trwy grwpiau newydd, bydd hyn yn cynnwys ASB / lleihau'r galw ar wasanaethau trwy ymyriadau amserol |
| Personau ar goll | Canolig-Uchel | | | | |
| Gyrru dan y dylanwad (cyffuriau ac alcohol) | Canolig | Dyletswydd cyffuriau a alcohol | Rhif 5 | Awdurdodau Lleol i fabwysiadu'r cynllun lleihau alcohol rhanbarthol | Yn ystod y flwyddyn - yn dibynnu ar ba gynlluniau y gellir eu cyflawni, gwneir cyfraniad at ganlyniadau'r cynllun rhanbarthol - mae hwn yn uchelgais tymor hir - cynllun 4 blynedd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Grwpiau Tasg a Gorffen i'w rhoi ar waith i nodi tasgau a'u gweithredu'n lleol | |
| | | | Rhif 6 | Mae'r Bwrdd Rhanbarthol yn cytuno ar anghenion lleol mewn perthynas â gwasanaethau cyffuriau ac alcohol - gan gynnwys sicrhau'r cyllid i'w weithredu<br><br>Mae'r holl swyddi ac adnoddau newydd a nodwyd yn cael eu rhoi ar waith yn lleol | Mae pob datblygiad yn cyfrannu at ganlyniadau'r cynllun rhanbarthol<br><br><br>3. WG Delivery Plan and APB position st |
| Twyll gan gynnwys Troseddau Seiber | Canolig | | Rhif 7 | Creu Uned Trosedd Economaidd (UTE) a fydd yn cynnwys swyddogion twyll wedi'u hyfforddi'n arbennig, swyddogion seiberdroseddu a swyddogion ymchwilio ariannol o fewn Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Bydd yr uned yn darparu ymyrraeth gynnar i darfu ar dwyllwyr a'u gweithgareddau | Tymor byr – HGC mewn gwell sefyllfa i ddelio â thwyll<br><br>Gostyngiad yn yr amser mae'n gymryd i gwblhau ymchwiliadau<br><br>Tymor hir – lleihau erledigaeth yn y gymuned |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mwy o swyddogion rheng flaen wedi'u hyfforddi i ymateb i dwyll<br><br>Bydd yr uned hefyd yn darparu addysg, Cyngor atal troseddau a chefnogaeth i grwpiau bregus penodol | |
| Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol | Canolig | | | | |
| | | Lleihau Aildroseddu | | | |
| Prosiectau sy'n cyfrannu at ddatblygiad cyffredinol diogelwch cymunedol | | | Rhif 13 | Mae cefnogaeth wedi'i thargedu ar gael ar gyfer nifer o anghenion a nodwyd, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, cam-dring domestig, iechyd meddwl ac eraill.<br><br>Nifer yr unigolion sy'n derbyn ymyrraeth | Llai o gleientiaid angen yr ymyriadau mwy dwys |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | Rhif 2 | Staff y Heddlu yn derbyn adnewyddiad ar y hyfforddiant EAT<br><br>Cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau EAT priodol | Yn y tymor canolig mae mwy o unigolion yn derbyn ymyrraeth gynharach, a ddylai atal gwaethygu i fod angen darpariaeth mwy dwys |
| | | | Rhif 3 | Adnewyddu a diweddaru amryw o ganllawiau un munud sy'n ymwneud â gwahanol fathau o droseddau<br>Sicrhau eu bod ar gael i wasanaethau'r A.Ll ac eraill fel sy'n briodol | Mae teclyn codi ymwybyddiaeth ychwanegol ar gael i staff, sy'n gwella'r cyfleoedd iddynt gael eu hysbysu'n briodol am yr hyn i edrych amdano, beth i'w wneud, â phwy i gysylltu |
| | | | Rhif 9 | Adolygu'r ddarpariaeth llety gefnogol gyfredol<br>Cynyddu nifer yr unedau sydd ar gael<br>Dod â rhywfaint o'r gefnogaeth honno'n fewnol i'r Gwasanaeth Digartrefedd | Gwasanaethau mewn sefyllfa well i ddarparu cymorth ymyrraeth gynnar i unigolion, llai o gleientiaid yn cyflwyno ag anghenion cymhleth ac angen cefnogaeth mwy dwys |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **18 Ionawr, 2022** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2021/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>01248 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2021/22

**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Effaith yr Argyfwng presennol ar Raglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r cyfnod presennol (**rheoli ymateb argyfwng i'r Pandemig, yr Adfer ac yn raddol dychwelyd i'r Normal Newydd**) yn eithriadol o heriol i'r Cyngor a bob sefydliad cyhoeddus arall drwy Gymru wrth i ni barhau i wynebu heriau'r argyfwng Covid-19, ac mae'n anorfod bod hyn yn cael effaith ar raglen waith y Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Yn ystod cyfnod o argyfwng fel hyn, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig model sgriwtini penodol yn sgil y pandemig, sydd ar y cyd â Strategaeth Bwyllgorau'r Cyngor yn gymorth i lywio rhaglen waith y Pwyllgor, gweler amlinelliad ohono isod:

i. Ffocws ar nifer llai o faterion allweddol sy'n canolbwyntio ar agweddau sylfaenol bywyd pobl leol ("*life and limb*")
ii. Cynnal briff gwylio dros wasanaethau'r Cyngor, perfformiad a materion ariannol
iii. **Elfennau penodol y Model Craffu:**
   - Trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid-19
   - Trosolwg penodol ar faterion sylfaenol bywyd (deddfwriaeth gofal; diogelu plant ac oedolion; iechyd cyhoeddus)
   - Cynnal trosolwg ar faterion cyllidol y Cyngor
   - Gweithredu fel cyfrwng ar gyfer profiadau cymunedol.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2021/22

| |
|---|
| ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]<br>3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:<br>• Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)<br>• Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini). |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2021/22 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd, 2021

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2021→ Ebrill, 2022**
**[Fersiwn ddyddiedig 11/01/22]**

## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mehefin, 2021 (07/06/21)** | **Mehefin, 2021 (15/06/21)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2020/21 | Diweddariad gan Brif Weithredwr BIPBC |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2020/21 |
| Data Digartrefedd y Gwasanaeth Tai (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, 08/03/2021) | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Gorffennaf, 2021 (08/07/21)** | **Mehefin, 2021 (28/06/2021)** |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21 | Adroddiad Blynyddol 2020-21 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2020/21 |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9)-2020/21 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Medi, 2021 (13/09/21)** | **Medi, 2021 (20/09/21)** |
| Monitro Perfformiad Ch1: 2021/22 | Adroddiad Cynnydd Chwarter 1 2021-22 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Hydref, 2021 (18/10/21)** | **Hydref, 2021 (19/10/21) - gohirio** |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2020/21 | |
| Enwebu Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini ar y Grŵp Llywio Gwastraff gyda WRAP Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Tachwedd, 2021 (01/11/21)- Cyllideb 2022/23 - gohirio** | **Tachwedd, 2021 (09/11/21)** |
| | Y Gymraeg:<br>• Strategaeth Iaith: 2021/26 – adolygiad<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |
| | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd: Adroddiad Adolygu |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | Diweddariad – Er Gwybodaeth:<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus- Trefniadau Llywodraethu<br>• Adroddiad Cynnydd Ch2: 2021/22 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| **Tachwedd, 2021 (16/11/21)- Ch.2** | |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2021/22 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Cynllun Trosiannol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Ionawr, 2022 (24/01/22)** | **Ionawr, 2022 (18/01/22)** |
| Strategaeth Tai Lleol 2022/27 | Adroddiad Blynyddol – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| Sefydlu Cyllideb 2022/23 (cyllideb refeniw) -cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Sefydlu Cyllideb 2022/23 (cyllideb gyfalaf) – cynigion drafft cychwynnol | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Chwefror, 2022 (28/02/22)** | **Chwefror, 2022 (08/02/22)** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2022/23 | Craffu ar Bartneriaethau |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid (i'w gadarnhau) | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Mawrth, 2022 (07/03/22)** | **Mawrth, 2022 (08/03/22)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2021/22 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb; 2020/21 |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2022/23 | Adroddiad Cynnydd Ch3: 2021/22 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| | Asesiad Anghenion y Boblogaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant (i'w gadarnhau) |
| Strategaeth Digartrefedd a Chymorth Grant Tai (07/03/2022) | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Ebrill, 2022 (11/04/22)** | **Ebrill, 2022 (13/04/22)** |
| | |
| | |
| | |

This page is intentionally left blank